
CPS Gwent

# Asesiad Perfformiad Cyffredinol

Cynhaliwyd Rhagfyr 2007



Hyrwyddo Gwelliant o ran Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi
HM Crown Prosecution Service Inspectorate

CPS Gwent

# Asesiad Perfformiad Cyffredinol

Cynhaliwyd Rhagfyr 2007



Hyrwyddo Gwelliant o ran Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi

HM Crown Prosecution Service Inspectorate

# TALFYRIADAU

Nodir y talfyriadau cyffredin a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn isod.
Eglurir y talfyriadau lleol yn yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| ABM | Rheolwr Busnes Ardal |
| ABP | Cynllun Busnes Ardal |
| AEI | Arolygiad Effeithiolrwydd Ardal |
| ASBO | Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| BCU | Uned Reoli Sylfaenol neu Uned Reoli Bwrdeistref |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CCP | Prif Erlynydd y Goron |
| CJA | Ardal Cyfiawnder Troseddol |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CJSSS | System Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod |
| CJU | Uned Cyfiawnder Troseddol |
| CMS | System Rheoli Achosion |
| CPIA | Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol |
| CPO | Swyddog Datblygu Achos |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CPSD | CPS Direct |
| CQA | Sicrhau Ansawdd Gwaith Achos |
| CTL | Terfyn Amser Cadwraeth |
| DCP | Erlynydd y Goron Rhanbarthol |
| DCV | Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr |
| DCW | Gweithiwr Achos Dynodedig |
| DP | Erlynydd ar Ddyletswydd |
| ECU | Uned Troseddau Economaidd |
| ETMP | Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol |
| HCA | Eiriolwr Llys Uwch |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM |
| JDA | Rhyddfarnu dan Gyfarwyddwyd Barnwr |
| JOA | Rhyddfarnau dan Orchymyn Barnwr |
| JPM | Monitro Perfformiad ar y Cyd |
| LCJB | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd |
| MG3 | Ffurflen lle y cofnodir y penderfyniad cyhuddo |
| NCTA | Dim Achos i'w Ateb |
| NRFAC | Costau Gweinyddu Heb eu Neilltuo |
| NWNJ | Dim Tyst Dim Cyfiawnder |
| OBTJ | Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt |
| OPA | Asesiad Perfformiad Cyffredinol |
| PCD | Penderfyniad Cyn Cyhuddo |
| PCMH | Gwrandawiad Ple a Rheoli Achos |
| POCA | Deddf Elw Troseddau |
| PTPM | Rheoli Perfformiad Tîm yr Erlyniad |
| PYO | Troseddwr Ifanc Cyson |
| SMT/G | Uwch Dîm neu Grŵp Rheoli |
| TU | Uned Dreialon |
| UBM | Rheolwr Busnes yr Uned |
| UH | Pennaeth yr Uned |
| VPS | Datganiad Personol Dioddefwyr |
| WCU | Uned Gofal Tystion |

# CYNNWYS

**A Cyflwyniad i'r broses asesu perfformiad cyffredinol . . . . . 2**

**B Disgrifiad o'r ardal a'r llwyth achosion . . . . . 3**

**C Crynodeb o ddyfarniadau . . . . . 4**

**D Agweddau diffiniol . . . . . 8**

1 Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo: rheoli a gwireddu'r manteision . . . . . 8
2 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon . . . . . 12
3 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron . . . . . 15
4 Datblygiad achosion yn y llys . . . . . 18
5 Achosion sensitif a throseddau casineb . . . . . 20
6 Datgelu . . . . . 22
7 Terfynau amser cadwraeth . . . . . 24
8 Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion . . . . . 26
9 Cyflwyno newid . . . . . 29
10 Rheoli adnoddau . . . . . 32
11 Rheoli perfformiad er mwyn gwella . . . . . 35
12 Arweinyddiaeth . . . . . 38
13 Sicrhau hyder y gymuned . . . . . 41

**Atodiadau**

A Data perfformiad . . . . . 43

B Asiantaethau cyfiawnder troseddol a sefydliadau a gynorthwyodd â'r asesiad hwn o berfformiad cyffredinol . . . . . 46

# A CYFLWYNIAD I'R BROSES ASESU PERFFORMIAD CYFFREDINOL

Canlyniad asesiad cyffredinol Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) o berfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yng Ngwent yw'r adroddiad hwn ac mae'n asesiad pellach y gellir mesur gwelliant o'r asesiad sylfaenol blaenorol yn 2004-05 yn ei erbyn.

**Asesiadau**

Gwnaed dyfarniadau gan HMCPSI yn seiliedig ar asesiadau absoliwt a chymharol o berfformiad. Daeth y rhain o ddata cenedlaethol; hunanasesiad CPS; canfyddiadau HMCPSI; a mesur yn erbyn y meini prawf a'r dangosyddion perfformiad da a nodir yn fframwaith yr asesiad perfformiad cyffredinol (OPA), sydd ar gael i bob Ardal.

Pennwyd yr OPA drwy raddio perfformiad yr Ardal o fewn pob categori naill ai fel 'Ardderchog' (lefel 4), 'Da' (lefel 3), 'Gweddol' (lefel 2), neu 'Gwael' (lefel 1) yn unol â'r meini prawf a amlinellwyd yn y fframwaith.

Mae'r Arolygiaeth yn defnyddio model penderfynedig o asesu a lywir gan reolau, sydd wedi'i gynllunio i roi blaenoriaeth i'r graddau ar gyfer agweddau 'critigol' ar y gwaith fel ffactorau sy'n sbarduno'r lefel perfformiad cyffredinol terfynol. Caiff asesiadau ar gyfer yr agweddau critigol eu hategu gan raddau sy'n ymwneud â'r agweddau diffiniol eraill, er mwyn pennu'r OPA.

Mae'r tabl ar dudalen 6 yn dangos perfformiad yr Ardal ym mhob categori, ynghyd â 'chyfeiriad y teithio' ers yr OPA blaenorol.

Nid yw OPA yn arolygiad llawn ac mae'n wahanol i weithgaredd arolygu traddodiadol.
Er ei fod wedi'i gynllunio i nodi'r agweddau cadarnhaol ar berfformiad a'r rhai y mae angen eu gwella mewn ffordd gynhwysfawr, mae'n osgoi cynnig dadansoddiad manwl o'r prosesau sy'n sail i berfformiad a hynny'n fwriadol. Bydd y math hwnnw o archwiliad manwl, lle y bo angen, yn rhan o'r rhaglen ehangach o weithgaredd arolygu.

**Gradd cyfeiriad teithio**

Dengys hon y newid ym mherfformiad yr Ardal rhwng y cyfnod asesu presennol a'r OPA blaenorol, hynny yw rhwng 2004-05 a 2006-07. Mae'r graddau posibl fel a ganlyn:

**Wedi gwella** gwelliant sylweddol mewn perfformiad;
**Stable** dim newid sylweddol mewn perfformiad;
**Declined** perfformiad wedi gwaethygu'n sylweddol

# B DISGRIFIAD O'R ARDAL A'R LLWYTH ACHOSION

Mae CPS Gwent yn gwasanaethu'r ardal a gwmpesir gan Heddlu Gwent. Mae ganddi un swyddfa, yng Nghasnewydd ac mae Ysgrifenyddiaeth yr Ardal wedi'i lleoli yno hefyd.

Ar adeg yr OPA diwethaf, roedd busnes yr Ardal wedi'i rannu yn ôl dyletswyddau swyddogaethol rhwng gwaith y llysoedd ynadon a Llys y Goron. Mae'r Unedau Cyfiawnder Unedol (CJU) yn gyfrifol am gynnal pob achos yn y llysoedd ynadon ac mae un Uned Dreialon yn ymdrin ag achosion yn Llys y Goron.

Yn ystod y flwyddyn 2006-07 roedd Gwent yn cyflogi 80.6 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn, ac roedd ganddi gyllideb o £3,519,796, sef cynnydd o 1.8% mewn staffio a chynnydd o 14.0% yn y gyllideb ers 2004-05, y cyfnod a gwmpaswyd gan yr asesiad perfformiad cyffredinol blaenorol.

Mae manylion am lwyth achosion yr Ardal yn 2004-05, ac yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007 fel a ganlyn:

## Gwaith cyn cyhuddo[1]

| 2004-05 | | 2006-07 | |
|---|---|---|---|
| Cyngor ysgrifenedig | 925 | Penderfyniadau a arweiniodd at gyhuddiad | 3,091 |
| Cyngor cyn cyhuddo (lle y mae ar gael) | 2,150 | Penderfyniadau nad oeddent wedi arwain at gyhuddiad[2] | 3,304 |

| **Gweithrediadau'r llysoedd ynadon** (yn cynnwys achosion a oedd yn amodol ar benderfyniad cyn cyhuddo yn flaenorol) | **2004-05** | **2006-07** | **Newid canrannol** |
|---|---|---|---|
| Erlyniadau yn y llysoedd ynadon | 15,819 | 13,302 | -15.9% |
| Gweithrediadau eraill | 11 | 2 | -81.8% |
| **Cyfanswm y gweithrediadau yn y llysoedd ynadon** | **15,830** | **13,304** | **-15.9%** |
| **Gweithrediadau Llys y Goron** (yn cynnwys achosion a oedd yn amodol ar benderfyniad cyn cyhuddo yn flaenorol) | | | |
| Achosion a anfonwyd neu a draddodwyd i Lys y Goron | 1,316 | 1,027 | -21.9% |
| Traddodi i ddedfryd[3] | 171 | 192 | +12.2% |
| Apeliadau o'r llysoedd ynadon[3] | 164 | 168 | +2.4% |
| **Cyfanswm gweithrediadau Llys y Goron** | **1,651** | **1,387** | **-15.9%** |

Yn 2006-07, arweiniodd 55.3% o droseddau y cafodd troseddwyr eu dwyn o flaen at gollfarnau.

1 Nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth ddilys â llwyth achosion cyn cyhuddo 2004-05 am mai dim ond o fis Ebrill 2006 ymlaen yr oedd dulliau cyhuddo statudol ar waith yn llawn ym mhob un o Ardaloedd y CPS.

2 Yn cynnwys penderfyniadau a arweiniodd at beidio â chymryd camau pellach, achosion a ystyriwyd (TICs), rhybuddion a gwarediadau eraill.

3 Cynhwyswyd hefyd yn ffigurau'r llysoedd ynadon, lle y cynhaliwyd y prif wrandawiad.

# C CRYNODEB O DDYFARNIADAU

**Ffactorau cyd-destunol a chefndir**
Mae gan CPS Gwent lwyth achosion amrywiol sy'n adlewyrchu cymysgedd o faterion trefol a gwledig. Mae'n ymdrin â pheth troseddu cyfundrefnol ac achosion cymhleth, ond ar y cyfan mae'n ymdrin â throseddau 'cyffredin' megis troseddau casineb, troseddau caffael ac ymosodiadau.

Cafodd radd o 'Gweddol' yn yr OPA diwethaf yn 2005. Cynhaliwyd arolygiad o effeithiolrwydd yr Ardal (AEI) hefyd ym mis Ionawr 2007, a ganolbwyntiodd ar yr agweddau gwan ar berfformiad. Yn ystod yr AEI siaradodd arolygwyr â staff ac asiantaethau partner ac archwilio nifer fawr o ffeiliau achos. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2007.

Bu Gwent heb Brif Erlynydd y Goron (CCP) rhwng 2004 a mis Awst 2007 ac mae wedi bod heb Reolwr Busnes parhaol llawn amser ers mis Medi 2006. Arweiniodd y sefyllfa hon at ddiffyg cyfeiriad ac arweiniad ac mae wedi bod yn rhwystr i gyflwyno rhai o'r newidiadau angenrheidiol neu'u gweithredu'n llawn. Mae hefyd wedi cael effaith negyddol ar forâl y staff a rhai rheolwyr ac mae wedi atal datblygiad ymagwedd strategol â phartneriaid cyfiawnder troseddol er mwyn mynd i'r afael â pherfformiad a gwendidau gweithredol.

Penodwyd CCP newydd ym mis Awst 2007; mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu perfformiad yn ystod 2006-07 ond mae hefyd yn ystyried newidiadau a wnaed yn 2007-08 ac ers i'r CCP newydd gyrraedd.

Mae'r Ardal yn wynebu newid ac ailstrwythuro ar hyn o bryd ac mae rhai newidiadau mor ddiweddar fel nad oedd modd gwneud asesiad realistig o'u heffeithiolrwydd. Ystyriwyd tystiolaeth o'r AEI lle y bo hynny'n briodol.

**Crynodeb**
Yn 2006-07 bu diffyg eglurder ynglŷn â'r ffordd y bwriadwyd cyflawni strategaeth yr Ardal ac nid oedd pob mater perthnasol wedi'i gynnwys yn y cynllun busnes. Gwaethygwyd y broblem gan ansicrwydd ynglŷn â swydd y CCP. Erbyn hyn mae'r Ardal mewn gwell sefyllfa i bennu strategaeth ar gyfer y tymor hwy a'r ffordd y bwriedir ei chyflawni. Gwnaed newidiadau i'r strwythur mewnol ac mae'r cam cyntaf o ran symud swyddfeydd wedi digwydd, er bod oedi cyn ymgymryd â'r ail gam, sy'n golygu na fu modd i'r Ardal weithredu'n llawn yr holl newidiadau y rhagwelodd a fyddai'n arwain at well perfformiad. Mae trefniadau newydd i gefnogi newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith ond mae gan Ardal Gwent raglen newid sylweddol o'i blaen, yn bennaf i feithrin gwell perthynas â'r partneriaid cyfiawnder troseddol, yn enwedig yr heddlu ar lefel weithredol.

Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo, yn enwedig y cyngor wyneb yn wyneb a roddir a'r broses gwneud penderfyniadau a lleihau cyfran yr achosion lle na chymerir camau pellach. Mae cyfran yr achosion lle gwneir penderfyniad cyn cyhuddo ac sy'n cael eu dirwyn i ben yn ddiweddarach yn parhau'n uchel. Yn ogystal, mae angen gwneud gwaith gyda'r heddlu i sicrhau bod pob achos priodol yn cael ei gyflwyno yn unol â'r cynllun statudol, er mwyn sicrhau nad eir y tu allan i'r system. Mae angen adolygu'r trefniant peilot lle caiff erlynwyr eu dyrannu i ganolfannau cyhuddo am dri mis ar y tro, er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r manteision a ddymunir. Mae'r gwaith o archwilio a gwella ansawdd ffeiliau'r heddlu wedi dechrau ac mae angen i'r Ardal barhau i chwilio am ffordd gydweithredol ymlaen â'r heddlu.

Yn y llysoedd ynadon roedd canlyniadau llwyddiannus yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2006-07. Mae trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith yn ddiweddar i wella datblygiad achosion, er ei bod yn rhy gynnar i asesu'r manteision.

Yn Llys y Goron hefyd roedd y canlyniadau llwyddiannus yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2006-07, a hefyd y gyfradd treialon aneffeithiol. Mae'r Ardal wedi meithrin cydberthnasau cynhyrchiol â Llys y Goron ac mae'r ffordd y mae dau Eiriolwr Llys Uwch yr Ardal sy'n ymgymryd â gwaith yno yn gweithredu wedi bod yn fuddiol. Mae ansawdd adeiladu achos yn dda ar y cyfan a cheir partneriaethau cynhyrchiol o ran atafaelu elw troseddau.

Gwneir gwaith da i nodi anghenion tystion a dioddefwyr ar y cam cyhuddo ac ar ôl hynny, ac i sicrhau y cânt y wybodaeth ddiweddaraf am hynt achosion. Mae amseroedd aros i dystion wedi gwella. Fodd bynnag nid yw'r Ardal yn cydymffurfio'n gyson â'r rhwymedigaethau sydd â'r nod o wella'r gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion. Mae llawer o waith i'w wneud gyda phartneriaid i weithredu mewn ffordd gadarn a systematig ac i wella perfformiad.

Mae'r trefniadau ar gyfer achosion sensitif, eu nodi a'u neilltuo er mwyn i erlynwyr arbenigol ymdrin â hwy yn foddhaol ar y cyfan. Bu gostyngiad yn y gyfradd canlyniadau llwyddiannus o ran achosion trais yn y cartref er i lysoedd arbenigol gael eu cyflwyno, ond mae perfformiad cyffredinol o ran troseddau casineb wedi gwella, ond yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae lle i ddadansoddi troseddau sensitif a throseddau casineb yn well er mwyn nodi unrhyw dueddiadau a gwersi, y gellid eu cyfleu'n fuddiol drwy gysylltiadau sefydledig yr Ardal i nifer o grwpiau a fforymau lleol, ac i'r Paneli Craffu ar Droseddau Casineb a Thrais yn y Cartref sydd i'w cyflwyno cyn hir.

Mae rhai agweddau ar ddatgelu wedi gwella, yn enwedig datgelu cychwynnol mewn achosion yn y llysoedd ynadon ac wrth gofnodi penderfyniadau a'r rhesymau drostynt. Mae lle o hyd i wella ac mae angen gwneud mwy o waith gyda'r heddlu i godi'r perfformiad i'r safon ddisgwyliedig.

Mae'r perfformiad o ran terfynau amser cadwraeth wedi dirywio'n sylweddol. Mae systemau'n ddigonol i sicrhau y cânt eu cyfrifo'n gywir a'u cadarnhau. Fodd bynnag mae diffyg cydymffurfiaeth â'r rhain a monitro aneffeithiol wedi arwain at un methiant a risg y bydd mwy.

Gorwariodd yr Ardal ar ei chyllideb gweinyddu nas neilltuwyd a'i chyllideb erlyn ar gyfer 2006-07, ond yn ystod hanner cyntaf 2007-08 bu tanwariant sylweddol. Mae angen rhoi trefniadau ar waith i sicrhau proffilio cywir, monitro a rheoli. Wrth i'r broses ailstrwythuro fynd rhagddi, bydd angen i'r Ardal sicrhau y gosodir disgwyliadau clir o ran y defnydd o gyfreithwyr. Mae Gwent yn parhau i gael anhawster i gyrraedd y targed o ran gwneud arbedion o'r defnydd o'i Heiriolwyr Llys Uwch ac nid yw ei chynllun adfer wedi llwyddo'n llwyr eto.

Dechreuwyd ar raglen wella i gynyddu cwmpas y wybodaeth am berfformiad a hyrwyddo diwylliant o berfformiad. Mae angen o hyd am ddadansoddi rhagfynegol a gwell gwerthuso, adolygu a monitro, er mwyn gwella perfformiad yn gyffredinol. Mae'r broses o reoli perfformiad ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol yn gwella hefyd, er na wireddwyd yn llawn y manteision a ragwelwyd.

Mae'r ymrwymiad i ymgysylltu â'r gymuned wedi parhau er gwaethaf yr ansicrwydd a'r bylchau mewn arweinyddiaeth yn ystod y cyfnod 2006-07. Mae'n amlwg bod yr Ardal yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ennyn ei hyder fel rhan o fusnes craidd ac ymgymerir â gwaith amrywiol.

Gobaith yr Ardal yw y bydd newidiadau mewn trefniadau ar gyfer perfformiad a rheoli newid, ynghyd â newid strwythurol, yn ei helpu i fod yn fwy cydlynol a sicrhau ymagwedd gorfforaethol ymhlith y tîm rheoli. Mae rhai uwch reolwyr yn parhau i weithredu ar sail dros dro a byddai'n helpu'r Ardal pe bai tîm rheoli sefydlog ganddi mor fuan â phosibl.

**Cyfeiriad teithio**

Mae perfformiad wedi gostwng yn sylweddol mewn pedair agwedd, wedi aros yn gymharol sefydlog mewn chwech, ac wedi gwella yn y tair agwedd arall. Bydd y lle i wella ymhellach yn dibynnu ar ddatblygu cyfeiriad clir, cydweithio'n effeithiol â phartneriaid cyfiawnder troseddol a sefydlu tîm rheoli sefydlog.

Yng ngoleuni ein canfyddiadau, mae perfformiad cyffredinol Gwent yn **WEDDOL**.

| **ASESIAD CYFFREDINOL** | | **GWEDDOL** | |
|---|---|---|---|
| **Agweddau critigol** | **Lefel yr asesiad** | | |
| | **OPA 2005** | **OPA 2007** | **Cyfeiriad teithio** |
| Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu**[4] |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |
| Arweinyddiaeth | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| **Lefel gyffredinol yr asesiad critigol** | | **GWEDDOL** | |
| Datblygu achosion yn y llys | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| Achosion sensitif a throseddau casineb | Da | **Da** | **Sefydlog** |
| Datgelu | Gwael | **Gweddol** | **Wedi gwella** |
| Terfynau amser cadwraeth | Da | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |
| Cyflwyno newid | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |
| Rheoli adnoddau | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |
| Rheoli perfformiad er mwyn gwella | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwella**[5] |
| Sicrhau hyder y gymuned | Da | **Da** | **Wedi gwella**[5] |
| **ASESIAD CYFFREDINOL** | Gweddol | **GWEDDOL** | |

4 Er nad yw'r broses o asesu'r agwedd hon wedi newid, cafwyd gwelliant sylweddol o ran ystod y perfformiad a gwmpaswyd gan y band.

5 Er nad yw'r asesiad o'r agwedd hon wedi newid, cafwyd gwelliant sylweddol o ran ystod y perfformiad a gwmpaswyd gan y band.

# D AGWEDDAU DIFFINIOL

| 1 GWNEUD PENDERFYNIADAU CYN CYHUDDO: RHEOLI A GWIREDDU'R MANTEISION | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

**1A Mae'r Ardal yn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo yn gweithredu'n effeithiol yng nghanolfannau cyhuddo'r heddlu a chaiff ei dogfennu a'i chofnodi'n gywir**

- Mae'r Ardal yn defnyddio tri erlynydd ar ddyletswydd i roi cyngor a gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener mewn tair canolfan gyhuddo: yr unedau cadwraeth dynodedig yng Nghasnewydd ac Ystrad Mynach, sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion cadwraeth Gwent, a Gorsaf yr Heddlu, Cwmbrân. Pan na fydd yr erlynydd parhaol ar ddyletswydd ar gael, mae staff eraill yn cyflenwi ar sail ad hoc.

- Cytunwyd ar brotocol cyhuddo newydd rhwng y CPS a'r heddlu ym mis Gorffennaf 2007, ond nid oes trefniant ffurfiol ar gyfer ymdrin ag achosion difrifol neu gymhleth. Os nad ymdrinnir ag achosion o'r fath yn y ganolfan gyhuddo, fe'u cyflwynir i swyddfa'r CPS drwy gyfeiriad gan erlynydd ar ddyletswydd neu'n uniongyrchol drwy 'borthgeidwad' o fewn yr heddlu er mwyn i Bennaeth yr Uned eu dyrannu i gyfreithiwr addas. Ni roddir cyngor yn amserol bob amser ac mae'r sefyllfa wedi'i gwaethygu oherwydd y cyfathrebu anghyson rhwng yr heddlu a swyddfa'r CPS, a all achosi anawsterau ac oedi.

- Trefnir apwyntiadau o 30 munud mewn canolfannau cyhuddo er mwyn galluogi swyddog o'r heddlu i weld yr erlynydd ar ddyletswydd ac fe'u rheolir gan gydlynydd. Fodd bynnag, nid oes unffurfiaeth rhwng canolfannau cyhuddo o ran y ffordd y gweithredir y system apwyntiadau. Y gyfradd ar gyfer penderfyniadau cyn cyhuddo (PCDs) wyneb yn wyneb oedd 50.3% yn 2006-07, o'i chymharu â 63.5% yn genedlaethol. Er bod hon wedi cynyddu i 52.6% yn ystod hanner cyntaf 2007-08, mae'r gyfradd wedi gostwng hyd yn oed ymhellach y tu ôl i'r cyfartaledd cenedlaethol o 71.8%.

- Mae cyfran sylweddol o gyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo yn digwydd dros y ffôn: 23.0% yn 2006-07 a 24.1% rhwng Ebrill a Medi 2007. Y cyfartaledd cenedlaethol oedd 2.9% a 3.6% yn y drefn honno. Mae'r Ardal yn cynnig gwasanaeth cyngor dros y ffôn fel mater o drefn yn lle'r system o swyddog yn trefnu apwyntiad yn y ganolfan gyhuddo. Mae hyn yn annog swyddogion sy'n ceisio cyngor i wneud hynny o bell heb gyswllt wyneb yn wyneb â'r erlynydd ar ddyletswydd, sy'n mynd yn groes i'r arfer disgwyliedig.

- Mae porthgeidwaid yr heddlu yn edrych ar ffeiliau cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r erlynydd ar ddyletswydd ac mae'n rhaid i bob swyddog sy'n ceisio cyngor cyn cyhuddo gael awdurdod gan y porthgeidwad ymlaen llaw. Fodd bynnag er eu bod yn bodoli, gwneir cyhuddiadau mewn rhai achosion heb gyfeirio at yr erlynwyr ar ddyletswydd na CPS Direct.

- Caiff cynlluniau gweithredu, i'w cwblhau gan yr erlynydd ar ddyletswydd, i fynd ag ymchwiliad yn ei flaen, eu cyd-drefnu gan yr heddlu a'u rheoli gan swyddogion datblygu achosion yr Uned

Cyfiawnder Troseddol yn yr heddlu. Erbyn hyn mae'r heddlu wedi cyflogi swyddogion mechnïo i'w dychwelyd, yn ogystal â phorthgeidwaid yn benodol i fonitro amseroldeb. Caiff ansawdd cynlluniau gweithredu eu monitro gan Benaethiaid Uned sy'n adolygu hapsampl bob mis.

- Roedd amseroldeb cyngor yn 2006-07 yn wael gyda'r Ardal yn cymryd 13.4 diwrnod ar gyfartaledd o'r ymgynghoriad cyntaf i benderfyniad i gyhuddo, o gymharu â ffigur cenedlaethol o 9.6 diwrnod. Cadarnhaodd gwiriadau 'realiti' nad oes cyfran uchel o achosion cyn cyhuddo anweithredol yn y system rheoli achosion electronig.

- Mae gweithdrefn sefydledig i apelio yn erbyn penderfyniad erlynydd ar ddyletswydd i beidio â chyhuddo. Bydd Pennaeth yr Uned yn ystyried teilyngdod unrhyw benderfyniad ac yn dyfarnu yn unol â hynny. Mae'r heddlu yn gwneud defnydd o'r system ac ystyrir unrhyw faterion sy'n codi yng nghyfarfodydd Rheoli Perfformiad Tîm yr Erlyniad (PTPM) misol.

- Mae'n ofynnol i erlynwyr ar ddyletswydd gofrestru eu cofnod o ymgynghoriad yn uniongyrchol ar y system rheoli achosion. Yn ystod 2006-07 cofnodwyd 96.4% o ymgynghoriadau ar y system rheoli achosion o gymharu â tharged o 90.0%, a oedd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cynyddodd y ffigur hwn i 99.4% rhwng Ebrill a Medi 2007. Dangosodd ein gwiriadau realiti fod ethnigrwydd a rhyw yn cael eu cofnodi'n gywir.

- Mae gan yr Ardal enw cyswllt a enwyd ar gyfer cydgysylltu â CPS Direct, er mai anfynych fu'r cysylltiad. Mae gwybodaeth am berfformiad CPS Direct wedi'i chynnwys ym mhecyn perfformiad yr Ardal.

- Treialwyd rhybuddion amodol yn un o ranbarthau'r heddlu o fis Mawrth 2007 a bwriedir eu cyflwyno'n llawn ym mis Rhagfyr. Dim ond tri rhybudd amodol a roddwyd rhwng Ebrill a Hydref 2007. Mae tîm gweithredu prosiect Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gwent (GCJB) wedi cydnabod bod hyn yn siomedig. Mae'r Ardal wedi cynnal adolygiad ar y cyd o'r fenter, ond nid yw wedi gosod unrhyw dargedau i fesur llwyddiant.

### 1B Mae'r Ardal yn sicrhau bod cyngor a phenderfyniadau cyn cyhuddo yn unol â chanllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, safonau cyhuddo a chanllawiau polisi

- Mae pob erlynydd wedi cael hyfforddiant o dan y Rhaglen Erlynydd Rhagweithiol. Cânt eu neilltuo i ganolfannau cyhuddo am dri mis ar y tro. Sefydlwyd y system hon ym mis Hydref 2006 i geisio gwella ansawdd a chysondeb penderfyniadau cyn cyhuddo ac i feithrin mwy o ethos 'tîm yr erlyniad' gyda'r heddlu, yn y gobaith y byddai perfformiad a chanlyniadau'n gwella.

- Caiff penderfyniadau cyhuddo eu monitro gan Benaethiaid Uned drwy broses Sicrhau Ansawdd Gwaith Achos (CQA) a hunanaseswyd cydymffurfiaeth â'r safonau ansawdd yn fwyaf diweddar fel 87.7% yn ystod ail chwarter 2007-08. Ar adeg yr AEI ystyriwyd bod ansawdd penderfyniadau yn dda, gyda'r prawf tystiolaethol yn cael ei gymhwyso'n gywir mewn 97.9% o achosion a'r prawf budd y cyhoedd yn cael ei gymhwyso'n gywir ym mhob achos. Roedd y dewis o gyhuddiad wedi adlewyrchu difrifoldeb y drosedd yn foddhaol mewn 98.0% o achosion. Dangosodd gwiriadau realiti fel rhan o'r asesiad hwn mai cymysg fu ansawdd y penderfyniadau cyn cyhuddo ar y cyfan. Methwyd â gwneud penderfyniadau mewn rhai achosion yn amserol a gwnaed rhai yn frysiog, tra bod eraill yn dangos diffyg manylion neu esboniadau ffeithiol neu gyfreithiol. Mewn un achos

aethpwyd yn groes i'r cyngor ar gyhuddo a roddwyd yn wreiddiol ac awdurdodwyd cyhuddiad gan erlynydd ar ddyletswydd llai profiadol a arweiniodd at ddirwyn yr achos i ben yn ddiweddarach. Mewn achos arall nid oedd cofnod o unrhyw gyngor cyn cyhuddo ar y system rheoli achosion nac ar y ffeil bapur. Mae angen i'r Ardal adolygu ei threfniadau ar gyfer rhoi cyngor cyn cyhuddo ac asesu a ydynt, mewn gwirionedd, yn esgor ar y manteision disgwyliedig.

- Yn ogystal â CQA, mae'r Ardal yn ystyried ansawdd cyngor cyhuddo drwy hapsamplu detholiad o ffurflenni MG3 a thrwy ei gwneud yn ofynnol mai dim ond gyda chaniatâd Pennaeth yr Uned y caiff achosion eu dirwyn i ben. Dangosodd ein gwiriadau realiti nad oedd y gymeradwyaeth hon wedi'i nodi'n ysgrifenedig. Rhoddir adborth o'r gwaith monitro gan Benaethiaid Uned i gyfreithwyr yn unigol.

- Yn yr AEI nodwyd fel un agwedd i'w gwella fod angen i erlynwyr ar ddyletswydd ystyried materion ategol sy'n debygol o effeithio ar achos, megis datgelu deunydd nas defnyddiwyd, y Ddeddf Elw Troseddau (POCA) ac anghenion tystion. Nododd ei dadansoddiad ei hun o achosion a fethodd fod angen rhoi sylw i'r materion hyn o hyd, er i'n gwiriadau realiti ddangos bod peth gwelliant wedi'i wneud. O ran POCA, mae'r Ardal wedi rhagori ar y targed yn gyson ac mae wedi gwella ei defnydd o'r weithdrefn atal cyn atafaelu yn ddiweddar.

- Mae cyfran uchel o achosion lle cynghorir peidio â chymryd camau pellach. Yn 2005-06 arweiniodd 49.7% o ffeiliau a gyflwynwyd gan yr heddlu at benderfyniad i beidio â dwyn cyhuddiad ac yn 2006-07 penderfynwyd peidio â chymryd camau pellach mewn 51.1% o achosion, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 36.8% a 35.4% yn y drefn honno. Er bod y sefyllfa wedi gwella ers cyflwyno porthgeidwaid yr heddlu, mae perfformiad yn parhau'n waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ystod saith mis cyntaf 2007-08. Caiff cyngor i beidio â chymryd camau pellach eu monitro'n fisol drwy hapsamplu gan Benaethiaid Uned. Mae'r Ardal yn ymwybodol o'r gyfradd uchel ond nid yw wedi gallu nodi unrhyw duedd benodol fel ffactor sy'n cyfrannu at hyn, er iddi edrych yn benodol ar ei pherfformiad o ran penderfyniadau i beidio â chymryd camau pellach.

- Caiff rhybuddion amodol eu monitro gan y tîm gweithredu sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Araf fu eu mabwysiadu ac mae'r tîm wedi ystyried y rhesymau pam bod nifer fach iawn o rybuddion amodol wedi cael eu rhoi. Ar hyn o bryd, mae'r Ardal yn ystyried ehangu nifer yr opsiynau gwaredu sydd ar gael a bwriedir gwneud dadansoddiad pellach.

### 1c Gall yr Ardal ddangos manteision ei chyfraniad at y broses o wneud penderfyniadau cyn cyhuddo

| | Achosion yn y llysoedd ynadon | | | | Achosion yn Llys y Goron | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11.0% | 15.7% | 27.7% | 20.3% | 11.0% | 13.1% | 16.6% | 12.6% |
| Cyfradd pledio'n euog | 52.0% | 69.2% | 58.4% | 62.3% | 68.0% | 66.5% | 50.0% | 66.3% |
| Cyfradd athreulio | 31.0% | 22.0% | 35.0% | 27.6% | 23.0% | 22.2% | 33.3% | 22.4% |

- Mae'r Ardal yn gwireddu tair o'r manteision disgwyliedig o ran cyhuddo ac mae wedi gwella ei pherfformiad yn y llysoedd ynadon ers yr OPA diwethaf yn 2004-05. Fodd bynnag gwaethygodd perfformiad yn 2006-07 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, 2005-06. Ym mhob un o'r tri mesur mae Gwent wedi cofnodi ffigurau sy'n waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2006-07. Roedd cyfraddau dirwyn achosion yn y llysoedd ynadon i ben lle gwnaed penderfyniad cyn cyhuddo yn arbennig o uchel. Gwelwyd gwelliant yn ystod hanner cyntaf 2007-08, ond erys perfformiad yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Yn Llys y Goron mae perfformiad wedi gwella o'i gymharu â'r OPA diwethaf a 2005-06. O gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, ar gyfer 2006-07 mae perfformiad yr Ardal o ran cyfraddau athreulio a phledio'n euog yn debyg i'r cyfartaledd, ond yn waeth o ran achosion sy'n cael eu dirwyn i ben. Yn ystod hanner cyntaf 2007-08 bu perfformiad yn sefydlog, er ei fod yn is na tharged yr Ardal ar gyfer pob un o'r tri mesur, yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ystod yr un cyfnod mewn perthynas â phleon euog ac athreulio, a gwell na'r perfformiad cenedlaethol ar gyfer dirwyn i ben.

- Y gyfradd gollfarnu gyffredinol yn 2006-07 ar gyfer achosion lle gwnaed penderfyniadau cyn cyhuddo, i'r llysoedd ynadon a Llys y Goron, oedd 73.6% sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 78.0%. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliant yn ystod dau chwarter cyntaf 2007-08.

- Mae'r Ardal yn cynnwys gwybodaeth PTPM fel rhan o'r pecyn perfformiad sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr, er nad oes fawr ddim dadansoddi, rhywbeth y mae wrthi'n cymryd camau i fynd i'r afael ag ef. Caiff data am berfformiad ei ddosbarthu i'r staff drwy e-bost a'i drafod rhwng y rheolwyr llinell ac aelodau unigol o staff pan ystyrir bod hynny'n briodol. Mae cyfarfodydd PTPM yn cael eu cynnal yn rheolaidd er nad yw'r cofnodion yn adlewyrchu pa mor fanwl yw'r drafodaeth. Mae lle hefyd i wella'r ffordd y caiff camau gweithredu eu pennu a'u cymryd er mwyn sicrhau bod y cyfarfodydd yn sbarduno gwelliannau'n effeithiol. Bu diffyg ethos tîm erlyniad, yn enwedig ar lefel weithredol, yn rhwystr i wneud cynnydd yn hyn o beth ac i wireddu manteision cyhuddo.

| 2 SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS YN Y LLYSOEDD YNADON | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |

## 2A Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu

| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Dirwyn i ben ac achosion o rwymo | 10.8% | 10.9% |
| Dim achos i'w ateb | 0.2% | 0.2% |
| Gwrthodiad ar ôl treial | 1.9% | 1.4% |
| Traddodebau a ryddhawyd | 0.2% | 0.3% |
| Gwarantau | 2.6% | 2.2% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 84.3% | 85.1% |

- Roedd y gyfradd gollfarnu ar gyfer 2006-07 yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac, er ei bod ychydig yn is na ffigur y flwyddyn flaenorol sef 85.4%, mae wedi gwella ers yr OPA diwethaf. Yn ystod hanner cyntaf 2007-08 gwelwyd gostyngiad bach mewn rhyddfarnau i 84.8%, sy'n is na tharged cyfredol yr Ardal o 85.0%, a hynny oherwydd cynnydd yng nghyfran y collfarnau ar ôl treial; bu perfformiad mewn mesurau eraill yn gymharol sefydlog.

- Mae traddodebau a ryddhawyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2006-07 fel canran o achosion a derfynwyd, sef 0.3% o gymharu â 0.2%, ac fel canran o draddodebau a wrandawyd neu achosion a anfonwyd, sef 4.0% o gymharu â 2.5%. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y ddwy flynedd flaenorol pan oedd perfformiad yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ddiweddar mae'r llysoedd ynadon wedi dechrau bod yn llai parod i dderbyn ceisiadau i ohirio na chynt a gall hyn, i raddau, esbonio'r sefyllfa ond bydd angen o hyd i'r Ardal ei hun weithio gyda'r heddlu mewn ffordd ystyrlon i wella ansawdd ffeiliau ac amseroldeb. Mae gweithdrefnau ar waith i ystyried ailddechrau traddodebau a ryddhawyd, ond nid ymddengys bod systemau gyda'r heddlu yn ddigon cadarn i sicrhau bod achosion priodol yn cael eu hailddechrau wedyn heb oedi. Mae'r lefel gynyddol yn achosi pryder a chodwyd y sefyllfa yn y GCJB.

- Caiff pob canlyniad aflwyddiannus, gan gynnwys traddodebau a ryddhawyd, ei fonitro gan Benaethiaid Uned sy'n dadansoddi'r achosion ac yn paratoi adroddiad misol i Erlynydd Dosbarth y Goron. Caiff asesiadau sy'n nodi methiant i adolygu eu dychwelyd at Bennaeth yr Uned i'w trafod gyda'r cyfreithiwr perthnasol.

- Mewn partneriaeth â'r asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, rhagorodd yr Ardal ar y targed ar y cyd ar gyfer 2006-07 o ddwyn 15,348 o droseddau gerbron llys, gan ddwyn 16,653 gerbron llys. Yn y ffigur hwn, cyflawnodd CPS Gwent gyfradd gollfarnu o 55.3%, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 48.8%.

- Ni fu perfformiad yr Ardal cystal o ran y targed ar gyfer troseddwyr ifanc cyson ac arhosodd y perfformiad yn 84 diwrnod o arestio i waredu, o gymharu â'r targed o 71 diwrnod a'r cyfartaledd cenedlaethol o 72 diwrnod. Ar adeg yr AEI bu gostyngiad yn y perfformiad, ond roedd hyn yn adlewyrchu'r duedd genedlaethol. Gwelwyd peth tystiolaeth bod oedi ar y cam cyn cyhuddo ac nid oedd yr heddlu bob amser yn amserol o ran ceisio cyngor cyn cyhuddo na chymryd camau wedyn. Yn ôl dadansoddiad gan yr Ardal ym mis Ebrill 2007 bu oedi y gellid ei osgoi yn rhan o'r system am fod troseddwyr ifanc cyson yn cael eu gwysio i'r llys yn amhriodol ac nad oeddent yn mynd drwy gyhuddo statudol. Codwyd y mater hwn gyda'r GCJB a threfnwyd diwrnod hyfforddiant ym mis Mai 2007 pan roddwyd cyflwyniad gan reolwr perfformiad PYO y Bwrdd. Bu cyfreithwyr y CPS, gweinyddwyr a'r Hyrwyddwr PYO, yn ogystal â'r heddlu a chydlynydd PYO y Gwasanaeth Llys yn bresennol. Yn fwy diweddar, mae perfformiad yr Ardal wedi gwella, ond mae'n parhau i fethu â chyrraedd y targed a bod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

## 2B Mae dull effeithiol o reoli achosion a gwneud penderfyniadau yn golygu y gellir datblygu achosion ym mhob ymddangosiad llys

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 43.8% | 41.1% |
| Cyfradd treialon chwâl | 37.3% | 35.1% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 18.9% | 23.7% |
| Cyfradd treialon a ddirymwyd | 22.5% | 19.3% |

- Ailgyflwynodd yr Ardal broses monitro ar wahân ym mis Mai 2007, gan edrych ar amseroldeb ac ansawdd yr hyn a gyflwynwyd i'r ffeiliau gan yr heddlu. Ceir system gynhwysfawr ar gyfer coladu gwybodaeth sy'n nodi materion a thueddiadau allweddol y gellid ei defnyddio i lywio perfformiad ar y cyd drwy gyfarfodydd PTPM, ond nid yw wedi cael ei defnyddio'n effeithiol eto. Ym mis Medi 2007, o'r 135 o ffeiliau llawn a gyflwynwyd gan yr heddlu ar gyfer y llysoedd ynadon a Llys y Goron asesodd yr Ardal fod 20 yn ddigon parod ar gyfer treial, bod 108 heb fod yn barod ar gyfer treial a bod saith yn annigonol i fynd i dreial. Nododd cyfreithwyr mai diffygion o ran datgelu oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros fethiant ffeil. Hefyd roedd gwybodaeth am dystion, datganiadau tystion, tystiolaeth teledu cylch cyfyng, gwybodaeth am gymeriad drwg a ffurflenni ar gyfer mesurau arbennig a oedd ar goll neu'n anghyflawn hefyd yn fethiannau pwysig yn ansawdd ffeiliau. Ni chymerwyd camau mewn perthynas â'r materion hyn eto. Nodwyd bod amseroldeb cyflwyno ffeiliau yn dderbyniol yn y rhan fwyaf o achosion.

- Ar adeg yr AEI, anghyson fu ansawdd y gwaith paratoi achosion. Nid oedd yr erlyniad yn barod ar gyfer gwrandawiadau adolygu cyn treial mewn 41% o achosion a bu'n rhaid dychwelyd 33% at y llys am na chydymffurfiwyd â gorchmynion. Roedd oedi wrth gael deunydd gan yr heddlu wedi amharu ar waith paratoi achosion. Mewn achosion lle gwnaed penderfyniad i ddirwyn achos i ben, dylai 62.5% o'r penderfyniadau hyn fod wedi cael eu gwneud yn gynharach. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn gan ein gwiriadau realiti lle y dylai 60% o benderfyniadau i ddirwyn achos i ben

fod wedi cael eu gwneud yn gynharach nag a wnaed. Mae'r gwaith monitro ffeiliau a ddisgrifir uchod wedi arwain at rai gwelliannau mewn perthynas â pharatoi achosion ond erys amseroldeb yn broblem.

- Mae'r Ardal yn monitro ansawdd adolygiadau o ffeiliau llawn drwy broses CQA yn ogystal â gwerthuso'r agwedd hon fel rhan o'r adroddiadau ar ganlyniadau anffafriol. Dangosodd gwiriadau realiti nad oedd adolygiadau o ffeiliau llawn yn cael eu cwblhau na'u cofnodi ar y system rheoli achosion bob amser ac nad oedd yr adolygiad llawn cychwynnol o dan God Erlynwyr y Goron, ar ôl penderfyniad cyhuddo prawf 'trothwy' bob amser yn bresennol. Gwelwyd hefyd o'n gwiriadau mai cymysg fu amseroldeb yr adolygiadau treial.

- Dylai'r fenter Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod (CJSS) fod wedi ei chyflwyno ym mis Ebrill 2007, ond nis gweithredwyd tan fis Awst, ac mae'r Ardal wed cael anhawster i'w hymgorffori'n llwyddiannus yn ei phrosesau. Adolygodd y tîm rheoli y ffordd y gweithredwyd CJSSS ym mis Medi 2007 a phenderfynodd nad oedd ansawdd ffeiliau wedi gwella yn unol â'r cynllun. Nododd tîm yr arolygiad AEI y byddai llwyddiant CJSSS yn dibynnu'n benodol ar gydweithio effeithiol rhwng yr erlyniad a'r heddlu yn lleol ac yn strategol a bod angen i reolwyr y CPS ganolbwyntio'n arbennig ar gyflawni'r manteision drwy gydweithredu. Erys cryn dipyn o waith i'w wneud er mwyn i'r Ardal feithrin partneriaethau mwy effeithiol ar bob lefel gyda'r asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill.

- Mae cyfran y treialon aneffeithiol wedi cynyddu yn 2006-07 i 23.7% o gymharu ag 20.3% yn 2005-06. Roedd hon yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18.9% a thipyn yn is na tharged yr Ardal ei hun ar gyfer y llynedd, sef 18.5%. Dengys ffigurau chwarter cyntaf 2007-08 ostyngiad mewn treialon aneffeithiol i 21.7%, ond erys yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18.6%% am yr un cyfnod. Roedd perfformiad o ran treialon chwâl a threialon a ddirymwyd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ystod 2006-07, sef 35.1% a 19.3% yn y drefn honno, ond unwaith eto mae wedi gwaethygu ers 2005-06.

- Cyfrifoldeb y Swyddog Datblygu Achosion (CPO) yw datblygiad achosion. Ym mis Medi 2007 sefydlwyd Uned Datblygu Achosion newydd (CPU), gan gadw cyfreithiwr yn y swyddfa i weithio ochr yn ochr â'r uned. Ehangwyd hon ym mis Hydref 2007 pan ychwanegwyd ail gyfreithiwr a rheolwr gweinyddol. Mae'r Ardal yn bwriadu ymgorffori'r Model Busnes Gorau ym maes datblygiad achosion yn gynnar yn 2008. Bydd hyn yn creu dwy CPU gyda swyddog yr heddlu i bob un. Mae'n rhy gynnar i asesu unrhyw welliannau mesuradwy mewn perfformiad.

- Mae'r defnydd o'r system rheoli achosion i reoli achosion wedi gwella yn ystod hanner cyntaf 2007-08 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn gyffredinol mae'n sgorio'n uwch o ran cwblhau adolygiadau na therfynu achosion. Dengys yr adroddiad ar ddefnydd y system rheoli achosion ar gyfer Medi 2007 fod yr Ardal wedi gwella mewn pump allan o'r chwe chategori a fesurwyd a'i bod wedi cwblhau 78.6% o adolygiadau ar y system, o gymharu â 79.1% yn genedlaethol.

| 3 SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS YN LLYS Y GORON | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

## 3A Mae canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu

| **Canlyniadau achosion yn Llys y Goron** | **Perfformiad cenedlaethol 2006-07** | **Perfformiad yr Ardal 2006-07** |
|---|---|---|
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr | 13.1% | 12.7% |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 1.4% | 0.9% |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 6.5% | 7.6% |
| Gwarantau | 1.3% | 0.7% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 77.7% | 78.2% |

- Roedd canlyniadau llwyddiannus ar gyfer 2006-07 yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac ychydig yn uwch na ffigur y flwyddyn flaenorol sef 77.2%, ond roedd perfformiad wedi gwaethygu ychydig ers yr OPA diwethaf pan mai 79.0% oedd y gyfran. Yn ystod hanner cyntaf 2007-08 gwelwyd gwelliant i 79.2% sydd ychydig yn is na tharged yr Ardal eleni sef 80.0%.

- Roedd cyfradd y rhyddfarnau dan orchymyn barnwr yn 2006-07 yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ond mae'r perfformiad wedi gwaethygu ychydig ers yr OPA diwethaf pan gyflawnodd yr Ardal 11.9%, a'r perfformiad yn 2005-06. Mae perfformiad wedi gwella yn ystod hanner cyntaf 2007-08. Mae cyfran y rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr wedi gwella'n raddol ers yr OPA diwethaf ac, yn ystod hanner cyntaf 2007-08, mae wedi gostwng ymhellach i 0.2%. Roedd rhyddfarnau gan reithgor ar gyfer 2006-07 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac wedi aros felly yn ystod dau chwarter cyntaf 2007-08.

- Mae angen awdurdod Pennaeth yr Uned Dreialon cyn y gellir dirwyn achos i ben yn Llys y Goron a chofnodi nodyn o'r ymgynghoriad ar y system rheoli achosion. Dadansoddwyd rhesymau dros ddirwyn achos i ben bob mis gan Bennaeth yr Uned sy'n paratoi adroddiad i Erlynydd Dosbarth y Goron. Yn ôl gwiriadau o ffeiliau roedd yr ymgynghori angenrheidiol â Phennaeth yr Uned yn cael ei gynnal cyn dirwyn achos i ben, ond nid oedd hyn bob amser wedi'i gofnodi'n gywir ar y system rheoli achosion.

- Yn ogystal ag achosion sy'n cael eu dirwyn i ben, mae adroddiadau misol Pennaeth yr Uned yn cynnwys rhyddfarnau dan orchymyn barnwr a rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr. Amlygir pwyntiau dysgu a rhoddir adborth i'r cyfreithiwr unigol lle y bo angen. Wedyn caiff manylion unigolion eu dileu a chaiff y wybodaeth ei dosbarthu i bob cyfreithiwr yn ogystal ag i dri Rheolwr Rhanbarthol yr heddlu a'i chynnwys gyda'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer cyfarfodydd PTPM. Dengys perfformiad diweddar fod canlyniadau llwyddiannus wedi gwella.

- Rhagorwyd ar y targed adennill asedau ar gyfer 2006-07 o £379,898 o 75% a chafwyd 43 o orchmynion gwerth £665,367 i gyd i atafaelu asedau fel elw troseddau. Mae cyfreithiwr a gweithiwr achos yn rhannu'r prif gyfrifoldeb am POCA, gyda chymorth cyfreithiwr sy'n rhan o uned gwaith achos cymhleth ranbarthol y CPS. Uned Ymchwilio Ariannol (FIU) yr heddlu yw ffocws yr Ardal o ran gwaith atafaelu, sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r symiau mwyaf yn hytrach na nifer y gorchmynion. Mae cyswllt rheolaidd rhwng y FIU a'r Tîm Adennill Asedau Rhanbarthol amlasiantaethol. Cyhoeddir perfformiad o ran POCA ac mae o dan 'berchnogaeth' y GCJB, sydd ag arbenigwr POCA dynodedig, a rheolir cynnydd drwy'r is-grwpiau perthnasol. Yn ôl y perfformiad hyd yma yn 2007-08 mae'r Ardal yn debygol o ragori ar ei tharged unwaith eto ac mae ar y blaen am hanner cyntaf y flwyddyn o ran nifer y gorchmynion a gwerth yr asedau i'w hatafaelu. Hyd at fis Medi 2007 cafwyd 31 o orchmynion yn erbyn targed o 50 a gwireddwyd £664,609 yn erbyn targed o £794,000.

## 3B Mae dull effeithiol o reoli achosion a gwneud penderfyniadau yn golygu y gellir datblygu achosion ym mhob ymddangosiad llys

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 48.2% | 58.3% |
| Cyfradd treialon chwâl | 39.5% | 31.5% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 12.4% | 10.2% |

- Caiff pob achos yn Llys y Goron ei weld a'i ystyried gyntaf gan Bennaeth yr Uned a fydd yn dyrannu un o gyfreithwyr yr Uned Dreialon gan ystyried ffactorau megis profiad, datblygiad neu ymwneud blaenorol ar y cam penderfyniad cyn cyhuddo gan y cedwir at yr egwyddor o berchnogaeth ffeil lle y bo modd. Ar adeg yr AEI, nodwyd yr ymdriniwyd ag achosion difrifol a chymhleth yn dda iawn, gydag erlynwyr yn ychwanegu gwerth at y broses erlyn. Roedd ansawdd penderfyniadau adolygu yn achosion Llys y Goron yn dda iawn, yn enwedig dau achos a oedd yn rhan o gynllun peilot ar gyfer eiriolwyr dioddefwyr a oedd wedi'u rheoli i safon uchel. Cadarnhaodd gwiriadau realiti ar gyfer yr asesiad hwn fod safonau wedi'u cadw, ond mewn rhai achosion ychydig iawn o werth a ychwanegwyd at yr adolygiad cyn cyhuddo. Yn gyffredinol, dangosodd yr Ardal well dealltwriaeth o faterion sy'n codi mewn treialon a phwyntiau i'r rheithgor ar gam adolygu Llys y Goron yn hytrach nag ar gam adolygu cyn cyhuddo.

- Cynhelir trafodaethau bob wythnos rhwng CPO yr Ardal ar gyfer Llys y Goron a CPO Llys y Goron ei hun, gyda chynrychiolydd o'r Uned Gofal Tystion yn dod hefyd i nodi materion sy'n effeithio ar ddioddefwyr a thystion. Cafwyd adborth cadarnhaol am waith yr Uned Gofal Tystion a'r cyfraniad a wna i gyfradd y treialon aneffeithiol gan bartneriaid cyfiawnder troseddol. Mae'r Ardal yn defnyddio rhestr wirio fewnol i sicrhau bod gwybodaeth sylfaenol ar gael yn ystod gwrandawiadau ple a rheoli achos (PCMH) a phan fydd yn barod i fynd i dreial, er enghraifft argaeledd tystion, gwybodaeth am geisiadau cymeriad drwg a mesurau arbennig. Mae canolfannau Llys y Goron yng Nghasnewydd ac yng Nghaerdydd yn defnyddio nifer o ffurflenni PCMH arbenigol sy'n ymdrin â phroblemau o ran datblygiad achos sy'n gysylltiedig â mathau penodol o achos, megis y rhai sy'n ymwneud â honiad o drais yn y cartref neu berson ifanc.

- Mae Llysoedd y Goron yn cadw ffocws da ym mhob achos lle mae person ifanc ynghlwm wrtho, a chânt flaenoriaeth gan y swyddog rhestru. Mae'r Ardal yn defnyddio taflen wybodaeth PYO ar y ffeil i olrhain targedau o amseroldeb a chynnydd gan ddefnyddio taenlen. Goruchwylir y weithdrefn gyfan gan y Swyddog Datblygu Achosion gyda chyfraniad gan yr Hyrwyddwr Ieuenctid. Mae rheolwr gweinyddol yr Uned Dreialon yn rhoi dadansoddiad misol o bob achos yn Llys y Goron sy'n ymwneud â throseddwr ifanc cyson i Bennaeth yr Uned.

- Ers yr asesiad OPA diwethaf mae cyfran y treialon effeithiol wedi cynyddu ac mae cyfraddau treialon aneffeithiol a chwâl wedi gostwng. Yn 2006-07, o'r treialon a restrwyd yn Llys y Goron, roedd 58.3% yn effeithiol, roedd 10.2% yn aneffeithiol ac roedd 31.5% yn dreialon chwâl. Roedd y perfformiad hwn yn rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol, er i Ardal Gwent berfformio hyd yn oed yn well yn 2005-06. Er bod perfformiad yn 2006-07 wedi gwaethygu mewn cymhariaeth, mae cyfradd y treialon aneffeithiol ar gyfer chwarter cyntaf 2007-08 wedi gwella i 8.5% ac mae'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Dadansoddir y rhesymau dros dreialon aneffeithiol yn fewnol a chyda phartneriaid cyfiawnder troseddol lleol. Roedd perfformiad yr Ardal yn 2006-7 yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn perthynas ag achosion chwâl neu aneffeithiol am resymau erlyn, sef 29.5% a 35.3% yn y drefn honno, o gymharu â 36.7% a 37.9% yn genedlaethol. Ymddengys bod perfformiad yn gwella eto, ar ôl gwaethygu yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Trafodir perfformiad mewn cyfarfodydd rhwng cyfreithwyr a gweithwyr achos, a ddylai gael eu cynnal yn fisol a chynnwys Eiriolwyr Llys Uwch. Er bod y cyfarfodydd wedi cael eu cynnal, nid ydynt wedi bod mor rheolaidd nac mor aml ag a ragwelwyd. Fel arall bydd Pennaeth yr Uned Dreialon yn rhoi gwybod am berfformiad i gyfreithwyr yn unigol ar sail ad hoc ac i'r staff yn gyffredinol drwy e-bost.

- Mae cyfreithwyr yn yr Uned Dreialon yn gwneud defnydd da o'r system rheoli achosion i gofnodi penderfyniadau adolygiad. Mae'r adroddiadau ar ddefnydd yn dangos bod yr Ardal wedi rhagori ar darged 2006-07 i gwblhau 90% o adolygiadau Llys y Goron ar y system, gan gyflawni cyfradd o 90.5%. Cynyddodd hon i 99.4% o'i mesur dros ddau chwater cyntaf 2007-08 ac, ar gyfer mis Medi 2007, cwblhawyd 100% o adolygiadau Llys y Goron ar y system rheoli achosion.

| 4 DATBLYGIAD ACHOSION YN Y LLYS | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

**4A Mae'r Ardal yn sicrhau bod achosion yn cael eu datblygu ym mhob ymddangosiad llys**

- Ar adeg yr AEI roedd datblygiad achosion yn wael a bu gohiriadau yn gyffredin yn y llysoedd ynadon. Nododd yr arolygwyr nifer o ffeiliau lle roedd un gohiriad ar ôl y llall, hyd yn oed mewn achosion syml, a bu oedi ar bob cam o'r broses. Yn ystod 2006-07 cymerodd yr Ardal 138.4 diwrnod o'r ymddangosiad cyntaf i gwblhau achos. Y cyfartaledd cenedlaethol oedd 109.4 diwrnod. Cafwyd gohiriadau yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron yn amlach nag a gafwyd yn genedlaethol. Yn 2006, ar ôl gostwng yn gyson yn ystod yn tair blynedd flaenorol, roedd gwaredu achos yn Llys y Goron yn cymryd 57 diwrnod o'i restru'n gyntaf i'w gwblhau, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 52 diwrnod. Perfformiodd yr Ardal yn well o ran gwrandawiadau traddodi yn y llysoedd ynadon, lle roedd y gyfradd ohirio gyfartalog yn 2006-07 yn well na'r gyfradd genedlaethol Caiff gohiriadau eu cofnodi mewn data ar berfformiad a'u hystyried yn y fframwaith perfformiad ond hyd yma ni welwyd gwelliannau mawr.

- Cadarnhaodd gwiriadau realiti yn yr asesiad hwn na fu datblygiad effeithiol mewn ffeiliau. Dylid bod wedi gwneud penderfyniadau i ddirwyn achos i ben yn gynt mewn chwech o'r deg achos a ystyriwyd. Mewn tri achos arall, bu'n rhaid gofyn am ohiriad am nad oedd adolygiad wedi'i gwblhau mewn pryd ar gyfer y gwrandawiad ac mewn dau achos a gafodd eu gwrando yn y llysoedd ynadon ni chwblhawyd datgelu cychwynnol mewn pryd er mwyn i'r treial fynd rhagddo. Ar ôl gweithredu CJSSS, menter gyda'r bwriad o symleiddio a chyflymu prosesau yn y llysoedd ynadon, mae'r Ardal wedi cael anhawster i fod yn barod erbyn dyddiad cyntaf y gwrandawiad a bu'n rhaid iddi ofyn am ohiriadau er mwyn cael gwybodaeth neu gwblhau proses er mwyn bod yn barod i fynd â'r achos yn ei flaen. Ni welwyd fawr ddim perchnogaeth o ffeiliau achosion yn y llysoedd ynadon, na systemau cadarn i sicrhau bod achosion yn barod i fynd rhagddynt.

- Fodd bynnag roedd ansawdd datblygiad achos yn Llys y Goron, lle gwelwyd mwy o berchnogaeth o ffeiliau, yn well ar y cyfan. Mae gan yr Ardal ddau Eiriolwr Llys Uwch profiadol sy'n cynnal cyfran sylweddol o'r achosion sy'n cael eu gwrando yn y llysoedd PCMH ac yn gwneud hynny yn gadarn, gan wneud penderfyniadau synhwyrol a hyddysg. Dengys adborth gan bartneriaid cyfiawnder troseddol fod defnyddwyr eraill Llys y Goron yn gwerthfawrogi eu hymdrechion.

- Roedd amseroldeb paratoi briffiau ar gyfer 2006-07 yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda 90.8% o friffiau yn cael eu hanfon at y bargyfreithiwr yn ddigon cynnar cyn y gwrandawiad, o gymharu â 78.3% yn genedlaethol. Caiff ansawdd y broses o baratoi briffiau ei fonitro drwy'r broses CQA. Yn 2006-07 yn ôl hunanasesiad Gwent roedd 85.2% o friffiau yn cyrraedd y safon ofynnol o gymharu â'r ffigur cenedlaethol o 92.6%, sy'n dangos iddi gynnal adolygiadau cadarn o berfformiad fwy na thebyg.

- Roedd y defnydd o gyfreithwyr mewnol yn y llysoedd ynadon yn dda a chaiff cyfreithwyr eu dyrannu i'r llysoedd wythnos ymlaen llaw gan Benaethiaid Uned, ond pan ddyrennir gwaith yn hwyr nid oes fawr o gyfle i neilltuo cyfreithwyr er mwyn cael gwell perchnogaeth o ffeiliau. Gweithwyr achos dynodedig sy'n gyfrifol am baratoi eu rota llysoedd eu hunain. Roedd safon yr

eiriolaeth yn dda ar y cyfan, er bod partneriaid cyfiawnder troseddol wedi nodi achlysuron pan gafwyd eiriolaeth wael. Un o argymhellion yr AEI oedd y dylai rheolwyr asesu safon eiriolaeth yn y llysoedd ynadon a dechrau monitro pob eiriolwr erlyn yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron yn systematig. Er bod yr Ardal wedi gwneud peth gwaith monitro ers hynny, ni fu'n rheolaidd nac yn systematig a dibynnir ar adborth gan bartneriaid cyfiawnder troseddol er mwyn gwerthuso perfformiad yn y ddau leoliad.

- Gorchmynnwyd i'r CPS dalu costau a wastraffwyd ers yr OPA diwethaf yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron. Yn 2006-07 gwnaed o leiaf ddau orchymyn costau a wastraffwyd, ond ni all yr Ardal ddweud a fu unrhyw orchmynion ychwanegol.

- Mae gweithio mewn partneriaeth yn well yn Llys y Goron nag yn y llysoedd ynadon, lle gwneir y gwaith cyffredin. Nid oes protocolau rhestru ar waith a byddai mwy o gydweithredu strategol â'r llysoedd ynadon yn fuddiol i'r Ardal. Ceir perthynas gynhyrchiol â Llys y Goron lle cynhelir cyfarfodydd rheolaidd, sy'n rhoi mwy o gyfle i rannu syniadau a gweithio mewn partneriaeth.

- Nid yw'r deunydd ychwanegol sydd ei angen ar y llys bob amser wedi'i gael gan yr heddlu mewn modd amserol ac mae problemau cyfathrebu wedi bod yn rhwystr. Yn ddiweddar, mae'r Ardal wedi bod yn fwy 'effro' i ddatblygiad achosion.

| 5 ACHOSION SENSITIF A THROSEDDAU CASINEB | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Sefydlog** |

**5A Mae'r Ardal yn nodi ac yn rheoli achosion sensitif (yn cynnwys troseddau casineb[6]) yn effeithiol**

- Nodir achosion sensitif ar gam penderfyniad cyn cyhuddo gan borthgeidwaid yr heddlu a fydd, ar ôl trafodaeth â'r erlynydd ar ddyletswydd, lle y bo'n briodol, yn eu cyfeirio at y Penaethiaid Uned i'w dyrannu i gyfreithiwr sy'n meddu ar brofiad addas. Pan fydd yr erlynydd ar ddyletswydd yn arbenigwr efallai y bydd yn cadw'r achos a bwriedir ychwanegu erlynydd ar ddyletswydd arall yn yr orsaf gyhuddo brysuraf er mwyn sicrhau bod mwy o gyngor arbenigol ar gael yno. Aed i'r afael ag oedi cyn derbyn ffeiliau a rhoi cyngor.

- Caiff y rhan fwyaf o achosion eu nodi'n rhai sensitif gan yr erlynydd ar ddyletswydd neu'r gweinydd sy'n cofrestru'r achos ar y system rheoli achosion. Yn ôl gwiriadau realiti roedd 90% o achosion perthnasol wedi'u nodi'n briodol. Caiff achosion y bwriedir eu cyfeirio at y grŵp trais yn y cartref amlasiantaethol, Prosiect Saff, wedi'u nodi'n benodol felly ac mae'r COS yn anfon ffurflenni cyfeirio at staff dros y ffacs.

- Ar ôl cyhuddo mae Penaethiaid Uned yn monitro hynt troseddau casineb ac achosion sensitif eraill o dan CQA. Mae'n rhaid i unrhyw gynnig i newid penderfyniad cyn cyhuddo'n sylweddol gael ei awdurdodi gan Bennaeth Uned. Asesir canlyniadau aflwyddiannus yn yr un modd ag unrhyw achos arall drwy adroddiadau a gaiff eu hadolygu wedyn. Gofynnwyd i fargyfreithwyr roi adroddiadau ar unrhyw ryddfarnau mewn achosion o drais, er bod yn rhaid anfon nodyn atgoffa i sicrhau y caiff y rhain eu gwneud yn gyson.

- Mae pob erlynydd wedi cael peth hyfforddiant neu ganllawiau ar droseddau casineb ac mae rhai wedi ymgymryd â hyfforddiant arbenigol ar gyfer trais a throseddau a waethygir oherwydd hil neu grefydd. Ymdrinnir â honiadau o drais gan arbenigwyr o gam y penderfyniad cyn cyhuddo hyd at y diwedd. Mae hyrwyddwyr neu gydlynwyr wedi'u penodi ar gyfer y categorïau allweddol o achosion arbenigol neu sensitif. Bwriedir i'r hyrwyddwyr gyfarfod â'r CCP newydd ddwywaith y mis er mwyn trafod perfformiad a materion yn ymwneud â gwaith achos a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r fath yn ddiweddar. Mae rhai o'r hyrwyddwyr yn weithgar iawn, gan roi canllawiau a hyfforddiant a dosbarthu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gyfraith ac arfer lle y bo'n briodol.

- Mae'r Ardal wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r daflen ddata genedlaethol ar gyfer digwyddiadau hiliol ac mae wedi cyflwyno ei ffurflenni monitro troseddau casineb ei hun, er mewn achos lle roedd troseddau perthnasol wedi codi nid oedd ffurflen fonitro wedi'i chwblhau. Mae enghreifftiau o adroddiadau misol ar droseddau casineb, ond nid ydynt yn cynnwys yr un categorïau o droseddau casineb yn gyson, nac yn egluro o dan ba gategori y mae pob achos.

6 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth mae pob cyfeiriad yn hyn o beth at achosion sensitif yn cynnwys pob un sy'n ymwneud â throseddau casineb (troseddau casineb o ran anabledd, trais yn y cartref, troseddau homoffobig, hiliol a chrefyddol), cam-drin plant/tystion sy'n blant, trais rhywiol, troseddau traffig ffordd angheuol a gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs).

Ceir anghysondeb hefyd o ran fformat adroddiadau, sy'n rhwystr i gymharu rhwng unedau neu dros amser. Mae'r heddlu hefyd yn darparu data ar droseddau casineb gyda gwybodaeth gryno am yr honiad a'r canlyniad. Mae adroddiadau perfformiad chwarterol yr Ardal yn rhoi peth data ar achosion a waethygir oherwydd hil neu grefydd a throseddau homoffobig, gyda'r trosolwg o'r hyn a ddigwyddodd yn yr achosion. Fodd bynnag nid oedd yr un o'r rhain yn cynnwys dadansoddiad cadarn o unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, unrhyw wersi y gellid eu dysgu, neu gamau y gallai'r CPS neu'r heddlu fod wedi'u cymryd i osgoi canlyniadau aflwyddiannus.

- Yn 2006-07 gwelwyd gwelliant yng nghyfradd y canlyniadau aflwyddiannus o ran pob trosedd casineb (33.3%) ers y flwyddyn flaenorol, ond ar gyfradd arafach nag a welwyd yn genedlaethol, felly aeth y perfformiad yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol lle bu gynt ychydig yn well. Roedd y gyfradd ar gyfer troseddau a waethygir oherwydd hil a chrefydd (25.6%) yn gymharol sefydlog ond bu hefyd islaw'r perfformiad cenedlaethol (23.0%). Mae cyfradd y canlyniadau llwyddiannus ar gyfer achosion o drais yn y cartref wedi gwella ers 2005-06 ond mae'n well na'r ffigur cenedlaethol.

- Mae'r Ardal yn gweithredu Llysoedd Arbenigol ar gyfer Trais yn y Cartref lle y caiff treialon eu rhestru er mwyn sicrhau bod cymorth wedi'i dargedu ar gael i ddioddefwyr. Nododd archwiliad y Swyddfa Gartref o'r llysoedd hyn fod y prosiect yn fodel o arfer da ac yn arbennig o gryf o ran gweithio mewn partneriaeth a hyfforddi cyfreithwyr a gweithwyr achos dynodedig. Mae'r asiantaethau yn casglu ac yn rhannu data ar y llysoedd, gan gynnwys nifer y cyfeiriadau, canlyniadau, achosion o ddatgyffesu gan dystion a gwybodaeth ddefnyddiol arall. Yn sgîl cyflwyno CJSSS mae trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhingylliaid cadwraeth yr heddlu yn mechnïo achosion priodol o drais yn y cartref ar gyfer sesiynau penodol yn y llysoedd ynadon fel y gall cynghorwyr arbenigol a swyddogion yr heddlu fod yn bresennol.

- Caiff polisïau'r CPS ac unrhyw adolygiadau perthnasol eu dosbarthu i gyfreithwyr a gweithwyr achos dynodedig a disgwylir i erlynwyr sicrhau bod eu gwaith achos yn cydymffurfio. Mae rhai o argymhellion adolygiad thematig HMCPSI o'r ffordd yr ymchwilir i droseddau o drais a'u herlyn wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes 2007-08, ond fel arall nid oes fawr o dystiolaeth bod adolygiadau a datblygiadau cenedlaethol yn cael eu hymgorffori'n systematig ym mholisïau a chynlluniau'r Ardal.

- Rhoddir adroddiad ar achosion a allai fod o ddiddordeb i'r cyfryngau neu achosi pryder yn lleol i Erlynydd Dosbarth y Goron neu CCP ynghyd â'r datblygiadau diweddaraf. Mae'r Ardal wrthi'n sefydlu Paneli Craffu ar Droseddau Casineb a Thrais yn y Cartref, a bydd gan y naill a'r llall gyfreithiwr annibynnol a hwylusydd ynghyd ag aelodau panel sy'n dod o grwpiau â diddordeb neu grwpiau cymunedol perthnasol.

- Mae'r Ardal yn cydgysylltu â fforymau amlasiantaethol lleol yn rheolaidd gan gynnwys y rhai ar gyfer trais yn y cartref, diogelu'r cyhoedd a throseddau a symbylir gan hil. Mae'r GCJB wedi penderfynu peidio â chreu cysylltiadau uniongyrchol â threfniadau amlasiantaethol lleol ar gyfer diogelu'r cyhoedd, felly mae'r rhain wedi'u cynnal ar lefel asiantaeth. Mae pum Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn yr ardal ac er nad yw'r CPS yn chware rhan ffurfiol mewn unrhyw un ohonynt, mae un o'r Penaethiaid Uned yn cadw cysylltiadau drwy fynychu cyfarfodydd o'r Grŵp Amddiffyn Plant, ac felly mae ganddo'r cysylltiadau perthnasol os bydd eu hangen. Nid yw'r Cynlluniau Busnes ar gyfer 2006-07 na 2007-08 yn cynnwys amcanion wedi'u cyfeirio at ddiogelu plant.

| 6 DATGELU | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gwael | **Gweddol** | **Wedi gwella** |

**6A Ceir cydymffurfiaeth â dyletswyddau datgelu'r erlyniad**

- Mae cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r erlyniad o ran datgelu deunydd nas defnyddiwyd mewn achosion yn y llysoedd ynadon wedi gwella ers yr OPA diwethaf yn 2005 a'r AEI ym mis Ionawr 2007. Caiff cydymffurfiaeth ei gwirio gan Benaethiaid Uned yn ystod y broses CQA a chan yr Hyrwyddwr Datgelu fel sicrwydd misol ynglŷn â safon arnodiadau. Hefyd cynhaliwyd adolygiad o ddeg ffeil y mis am dri mis yn ystod hydref 2007, er nad oedd hwn yn gwneud asesiad ansoddol o arnodiadau. Rhoddwyd peth hyfforddiant, er bod cyfreithwyr a gweithwyr achos o hyd nad ydynt wedi cael hyfforddiant uwch ar ddatgelu.

- Bu mwy o gysondeb o ran arnodi rhestrau ac mewn penderfyniadau sy'n cydymffurfio â'r darpariaethau cyfreithiol a'r canllawiau perthnasol. Ym mhob achos mae erlynwyr a staff eraill yn amlach na pheidio yn defnyddio taflen cofnodi datgelu i gofnodi camau gweithredu a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed. Dangosodd gwiriadau realiti i'r daflen cofnodi datgelu gael ei defnyddio ym mhob achos a ystyriwyd ac i'r deunydd gael ei gadw ar wahân i ddogfennau eraill ar y ffeil. Mewn 60% o achosion yn y llysoedd ynadon a 80% o achosion yn Llys y Goron ymdriniwyd â datgelu cychwynnol yn briodol. Ymdriniwyd yn briodol â datgelu parhaus mewn 60% o achosion yn Llys y Goron, ond dim ond mewn 33% (un o bob tri) o achosion yn y llysoedd ynadon. Mae gwiriadau CQA yn cadarnhau bod lle i wella.

- O ran datgelu cychwynnol methwyd â datgelu mewn da bryd neu ddim o gwbl. Mae rhestrau o dasgau o'r system rheoli achosion yn cadarnhau bod oedi mewn treialon yn y llysoedd ynadon, gyda'r mwyafrif llethol o'r tasgau sydd heb eu gwneud o ran datgelu cychwynnol yn hwyr iawn. Efallai mai un ffactor sy'n cyfrannu at hyn yw absenoldeb eitemau allweddol o ddeunydd nas defnyddiwyd a ddylai gael ei gynnwys fel mater o drefn o'r ffeil a gyflwynwyd gan yr heddlu ar gyfer y treial, fel y nodwyd yng ngwaith monitro safonau ffeiliau'r Ardal a'n gwiriadau realiti. Pan ofynnir am eitemau coll, mae oed cyn eu derbyn a'u cysylltu â'r ffeil.

- Nododd yr AEI safonau amrywiol o ran rhestrau'r heddlu ac mae hyn yn parhau. Hefyd, mae diffyg ymateb gan yr heddlu i ddatganiadau gan yr amddiffyniad wedi peri i rai erlynwyr beidio â chynnwys yr heddlu a gwneud datgeliadau parhaus heb adroddiad gan swyddog datgelu'r heddlu. Er efallai y bydd angen gwneud hyn mewn sefyllfaoedd brys, yn ystod y gwiriadau realiti daethpwyd o hyd i enghraifft lle roedd cyfreithiwr wedi gwneud datgeliad parhaus ar yr un diwrnod ag y daeth datganiad o achos yr amddiffyniad i law, heb roi cyfle i swyddog datgelu'r heddlu roi adroddiad. Mae'r Ardal wedi bod yn monitro rhestrau fel rhan o'r asesiad cyffredinol y mae'n ei gynnal o ansawdd ffeiliau'r heddlu ac mae wedi cyfleu'r canlyniadau i'r heddlu. Fodd bynnag, cymharol fach fu'r gwelliant mesuradwy a gafwyd yn sgil hyn a hyfforddiant ar y cyd gan yr Hyrwyddwr Datgelu ac eraill.

- Cydymffurfiwyd â dyletswyddau datgelu o ran deunydd sensitif yn yr achos cymwys yn Llys y Goron, ond nid yn y ddau achos cymwys yn y llysoedd ynadon. Roedd y methiannau o ran ymdrin â deunydd sensitif yn ymwneud â safon arnodiadau, anhawster sydd wedi'i oresgyn i raddau helaeth mewn perthynas â rhestrau o ddeunydd nad yw'n sensitif. Mae gan yr Ardal system glir ar gyfer ymdrin â'r deunydd ei hun a, lle y bo modd, ni fydd yn ei gadw. Os oes rhaid i'r CPS gadw'r deunydd caiff ei storio'n ddiogel. Cedwir cofnod o bob cais am imiwnedd budd y cyhoedd ac mae wedi cael ei wirio'n ddiweddar i sicrhau ei fod wedi'i ddiweddaru.

- Mae'r Ardal wedi ymdrechu i weithio gyda Llys y Goron i wella cydymffurfiaeth ynglŷn â datgelu ac mae'n gwneud rhywfaint o gynnydd. Er mwyn cefnogi hyn mae'n cyfarwyddo pob asiant a bargyfreithiwr i fod yn gadarn yn y ffordd y maent yn ymdrin ag unrhyw geisiadau gan yr amddiffyniad neu geisiadau ffurfiol.

- Mae nifer y treialon sy'n aneffeithiol oherwydd problemau datgelu yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob llys ac mae'n gwella yn y llysoedd ynadon fel cyfran o'r holl dreialon. Mae'r Hyrwyddwr Datgelu wedi bod yn hyfforddi rhai aelodau o staff y CPS a swyddogion yr heddlu ac mae wedi cynnal gwiriadau sicrwydd.

| 7 TERFYNAU AMSER CADWRAETH | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

**7A Mae systemau terfynau amser cadwraeth yr Ardal yn cydymffurfio â chanllawiau presennol y CPS a chyfraith achosion**

- Ceir system terfyn amser cadwraeth (CTL) ysgrifenedig sydd, i bob pwrpas, yn cydymffurfio â chamau gweithredu hanfodol cenedlaethol y CPS a dogfennau arfer da. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'w cofnodi ar y system rheoli achosion ac mewn dyddiaduron ar bapur, gyda gwiriadau rheolaidd o'r naill a'r llall. O dan y system ysgrifenedig nid yw'n ofynnol gwirio ffeiliau ar ôl pob gwrandawiad, mesur a allai effeithio ar effeithiolrwydd y systemau monitro. Ni ddefnyddir y rhestrau o dasgau o'r system rheoli achosion i helpu i fonitro terfynau amser cadwraeth, er y byddai hyn yn helpu i nodi achosion lle mae dyddiadau dod i ben ar fin digwydd. Mae'r gwaith monitro yn cynnwys gofyniad ar Benaethiaid Uned i wirio allbrintiau wythnosol o achosion cadwraeth o'r system rheoli achosion yn erbyn y ffeiliau eu hunain a rhoi adroddiadau sicrwydd i'r CCP yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r gwiriadau na'r gwaith monitro yn cael eu cynnal yn effeithiol.

- Cafwyd un methiant o ran terfynau amser cadwraeth ers yr OPA diwethaf a hynny ym mis Ebrill 2007. Yn yr achos hwnnw nid oedd y ffeil wedi'i nodi ar y dechrau fel un lle roedd terfyn amser cadwraeth ac ni chafodd y terfyn amser ei fonitro ar ôl ei derbyn yn gyntaf. Pan nodwyd bod y diffynnydd yn y ddalfa rhoddwyd y terfyn anghywir (70 diwrnod yn hytrach na 56), ac ni ddarganfuwyd y gwall tan 14 diwrnod ar ôl i'r terfyn amser cadwraeth ddod i ben. Rhoddwyd mechnïaeth i'r diffynnydd ond fe'i cadwyd yn y ddalfa mewn perthynas â mater arall.

- O ganlyniad i'r methiant dosbarthwyd adroddiad i'r staff, er y gallai fod wedi bod yn fwy cywir a manwl ynglŷn â'r amgylchiadau. Wedi hynny cafodd pob achos cadwraeth a oedd heb ddod i ben ei nodi a'i gadarnhau ac atgoffwyd y staff o bwysigrwydd monitro gofalus a chydymffurfio â system yr Ardal. Nid adolygwyd y system ei hun o ganlyniad i hynny. Pe bai'n cael ei defnyddio'n briodol dylid atal hyn rhag digwydd eto ond nid felly y mae ar hyn o bryd.

- Cynhaliwyd gwiriadau realiti ar chwe ffeil ac ar bob un roedd problemau o ran cofnodi neu fonitro'r terfyn(au) amser. Nid oedd dau achos yn cael eu monitro fel rhai â therfynau amser cadwraeth. Mewn un o'r rhain yr unig esboniad ynglŷn â sut, pryd a pham roedd y diffynnydd wedi'i gadw yn y ddalfa oedd yn adroddiad seiciatrydd yr amddiffyniad yr anfonwyd copi ohono i'r CPS. Yn nodiadau eraill dau wrandawiad cafodd papurau y tu mewn i'r ffeil eu copïo i siaced y ffeil heb nodyn am derfyn amser cadwraeth yr achos. Nid oedd dyddiad dod i ben wedi cael ei gyfrifo ar y naill na'r llall ac nid oedd cofnodion yn y dyddiadur. Mewn dau achos arall, gyda saith diffynnydd yr un, nid oedd datganiad clir o ba ddiffynnydd/diffynyddion oedd yn y ddalfa, pwy oedd wedi cael mechnïaeth ac o dan ba amodau. Roedd cofnodion o estyniadau i derfynau amser cadwraeth hefyd yn anfoddhaol.

- Yn y pumed achos yn y sampl o wiriadau realiti, achos a oedd wedi'i draddodi i Lys y Goron, nodwyd terfynau amser cadwraeth y llysoedd ynadon sef 56 a 70 diwrnod ar siaced ffeil Llys y Goron. Nid oedd y terfyn cymwys sef 112 diwrnod wedi'i nodi ar y ffeil nac wedi'i gofnodi yn y

dyddiadur. Yn yr achos olaf gosodwyd dau ddyddiad ar wahân i'r treial ar gyfer y ddau honiad, gyda'r naill a'r llall y tu allan i'r terfyn amser cadwraeth, ond heb rybudd nac esboniad ar y ffeil. Ni nodwyd y dyddiad dod i ben yn y dyddiadur, er bod cofnod o'r adolygiad saith diwrnod cyn i'r terfyn amser cadwraeth ddod i ben.

- Yn ystod yr OPA diwethaf nodwyd agwedd i'w gwella: Rheolwr Busnes yr Ardal sy'n gyfrifol am sicrhau bod y system terfynau amser cadwraeth yn gyfredol ond nid oedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y swydd ddisgrifiad. Nododd yr AEI nad oedd cynnydd wedi'i wneud ac felly y mae o hyd. Nid oes gan yr hyrwyddwyr dros achosion yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron rolau clir ychwaith a chyfyngedig iawn yw eu hymwneud â chynnal y system, monitro a hyfforddi a helpu cydweithwyr.

- Mae ymdrechion i gael y llysoedd i fonitro ar y cyd wedi cael canlyniadau cymysg. Mae Gwasanaeth Llys EM wedi gwrthod llofnodi protocol drafft a baratowyd gan yr Ardal, ond mae Llys y Goron yn monitro terfynau amser cadwraeth yn annibynnol.

| 8 Y GWASANAETH I DDIODDEFWYR A THYSTION | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |

**8A Mae'r Ardal yn sicrhau y caiff anghenion dioddefwyr a thystion eu hystyried a'u diwallu'n amserol ac yn effeithiol**

- Nid yw'r Ardal yn cyflawni'r targed dirprwy am nifer y llythyrau y dylai eu hanfon o dan y fenter Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr ac mae'n methu hefyd â chyrraedd perfformiad cenedlaethol ar y cyfan. Mae perfformiad yn erbyn y targed dirprwy wedi gwaethygu o 51.8% ar ddechrau 2006-07 i 21.5% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, er iddo gyrraedd 70.3% mewn un mis. Mae canran y llythyrau a anfonwyd o fewn y targed o bum diwrnod, sef 56.0% yn 2006-07, hefyd yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol o 73.0% er iddi wella ers 2005-06 ac eto yn ystod dau chwarter cyntaf 2007-08 (61.5% a 64.7% yn y drefn honno o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o tua 73.0%).

- Dangosodd gwiriad realiti mai dim ond mewn un allan o dri achos cymwys y dangoswyd y llythyr at y dioddefwr ar y system rheoli achosion. Roedd bodolaeth dioddefwr a nodwyd yn yr achos wedi'i nodi'n gywir mewn wyth allan o 11 o achosion. Dangosodd y system rheoli achosion nad oedd yr un dioddefwr wedi'i nodi yn yr Uned Dreialon yn y mis a wiriwyd, o gymharu â 227 yn yr unedau eraill. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i rai'r AEI.

- Roedd safon y llythyrau a anfonwyd at ddioddefwyr a thystion yn anfoddhaol mewn pedwar o'r achosion a welwyd yn y gwiriadau realiti o sampl o ffeiliau. Anfonwyd un llythyr gan ddefnyddio enw olaf y dioddefwr heb gyfeirio ato fel "Mr". Gwelwyd sawl enghraifft lle roedd paragraffau safonol ar gyfer llythyrau at ddioddefwyr wedi cael eu cynnwys ar gam mewn llythyrau at dystion a lle nad oedd cyfarwyddiadau i'r ysgrifennydd mewn templedi safonol wedi cael eu dileu yn y llythyr terfynol a anfonwyd. Anfonwyd llythyrau hefyd at dystion a dioddefwyr gyda gwybodaeth anghywir, megis dweud wrth dystion y cafwyd rhyddfarn gan reithgor pan benderfynwyd gollwng cyhuddiadau neu beidio â son bod dau honiad difrifol o ymosod hiliol wedi cael eu gollwng wrth roi gwybod am y ddedfryd ar drosedd trefn gyhoeddus a waethygir oherwydd hil. Nid oedd rheolwyr wedi rhoi digon o sylw i safon llythyrau.

- Nid yw ymdrechion i wella perfformiad wedi arwain at ganlyniadau digonol hyd yma. Mae anawsterau o ran TG wedi cyfrannu i'r diffyg cynnydd ond mae'r rhain wedi'u datrys erbyn hyn. Mae cofnodi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn hefyd wedi effeithio ar berfformiad ac, er gwaethaf nodiadau atgoffa i'r staff, mae hyn yn parhau.

- Mae peth tystiolaeth bod erlynwyr ar ddyletswydd yn ystyried anghenion tystion a'r posibilrwydd o geisiadau am fesurau arbennig, gan gynnwys ar gam y penderfyniad cyn cyhuddo, a dangosodd un achos yn y gwiriadau realiti safon dda iawn o ofal ar adeg cyhuddo ac ar ôl hynny. Mae'r Ardal yn asesu anghenion y rhan fwyaf o ddioddefwyr a thystion ar gam cynnar, er bod problem ers amser o ran sicrhau bod yr heddlu yn cydymffurfio â'r gofynion i ddarparu'r wybodaeth berthnasol, yn enwedig ar gyfer mesurau arbennig. Nid yw hon wedi'i datrys yn llawn eto, ond ymddengys ei bod yn gwella.

- Os bydd achos yn mynd i dreial, gwneir asesiad 'mini' o anghenion a phan nodir bod angen i dystion ymddangos yn y treial, cynhelir asesiad llawn. Defnyddir prosesau datblygiad achosion i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau a all godi a chaiff tystion rybuddion cywir ac amserol ar y cyfan. Yn y gwiriadau realiti gwelwyd enghreifftiau o wybodaeth yn cael ei rhoi'n amserol i ddioddefwyr a thystion ynghyd â'r datblygiadau diweddaraf yn rheolaidd gyda galwadau a chysylltiadau eraill yn cael eu cofnodi a dogfennau perthnasol yn cael eu cadw ar wahân mewn ffolder gofal tyst.

- Mae'r Ardal yn gweithio gyda'r llysoedd i leihau nifer y newidiadau munud olaf a'u heffaith ar restrau treialon ac mae protocol ar waith yn Llys y Goron i geisio lleihau amseroedd aros i dystion. Mae'r amser aros cyfartalog i dystion wedi gwella ac mae ychydig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol er bod cyfran y tystion sy'n aros dros ddwy awr yn Llys y Goron, er ei bod wedi gwella, yn waeth na'r gyfran genedlaethol o hyd.

- Nid oes gan yr Ardal unrhyw system benodol i sicrhau cydymffurfiaeth ag Addewid yr Erlynwyr a safon y gofal a roddir yn y llys, ond mae'n dibynnu ar adborth gan asiantaethau partner (megis y Gwasanaeth Tystion sy'n mynychu cyfarfodydd y grŵp defnyddwyr llys) a chan is-grŵp dioddefwyr a thystion y GCJB. Ymdriniwyd yn briodol ag achosion lle codwyd pryderon.

**8B Mae'r Ardal, ar y cyd â'i phartneriaid cyfiawnder troseddol, wedi cyflwyno'r cynllun Dim Tyst Dim Cyfiawnder (NWNJ) yn effeithiol**

- Ers yr AEI mae Gwent wedi cyfuno'r Ddwy Uned Gofal Tystion, yr oedd y naill yn ymdrin ag achosion yn Llys y Goron ac yn cael ei rheoli gan y CPS a'r llall yn ymdrin â gwaith achos arall yn y llysoedd ynadon ac yn cael ei rheoli gan yr heddlu, yn un. Mae'r Uned Gofal Tystion wedi'i lleoli ar safle'r heddlu ar hyn o bryd ond o fis Chwefror 2008 bydd ar safle newydd lle bydd y CPS a rhannau o'r heddlu yn cael eu lleoli. Rheolir yr Uned gan yr heddlu ac mae rheolwr newydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar mewn ymgais i fynd i'r afael ag anawsterau hirsefydlog.

- Nid yw'r Uned yn cydymffurfio eto â gofynion sylfaenol y fenter Dim Tyst Dim Cyfiawnder na Chod y Dioddefwyr. Yn sgîl hunanasesiadau diweddar ar sail 'goleuadau traffig' daeth yr Ardal i'r casgliad bod y rhan fwyaf o dargedau a gofynion wedi'u graddio'n 'felyn', gyda nifer fawr iawn yn 'wyrdd' a dim un yn 'goch'. Dengys gwiriadau realiti a thystiolaeth arall fod wyth o'r 14 o ofynion sylfaenol yn cael eu bodloni. Mae'n amlwg bod rhywfaint o gyfathrebu da â dioddefwyr a thystion, ond mae angen llawer mwy o waith i sicrhau bod yr Uned yn cyrraedd y safon ofynnol.

- O ran mesurau sylfaenol ar gyfer NWNJ cymysg yw'r darlun. Mae cyfradd y treialon aneffeithiol oherwydd materion sy'n ymwneud â thystion yn llawer gwaeth na'r gyfradd genedlaethol yn y llysoedd ynadon, ond mae ychydig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol yn Llys y Goron. Mae treialon chwâl ym mhob llys yn well o ran materion sy'n ymwneud â thystion ond yn waeth o ran pleon euog hwyr. Bu nifer sylweddol o dreialon (tri y mis ar gyfartaledd ers mis Ebrill 2007) a fu'n aneffeithiol am fod tystion sy'n swyddogion heddlu wedi methu ag ymddangos. Mae hwn wedi dod yn fater disgyblu yn heddlu Gwent erbyn hyn ac mae uwch swyddogion yn rhoi sylw manwl iddo.

- Mae cyfraddau presenoldeb tystion ychydig yn anghyson, ond ar y cyfan nid ydynt cystal â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae anawsterau o ran TG wedi effeithio ar ddibynadwyedd data'r System Rheoli Tystion nes ei bod yn ymddangos yn fwy anghyson na ffynonellau data eraill o gyfraddau presenoldeb tystion.

- Mae cofnodi gwybodaeth anghyflawn ar y system rheoli tystion (megis rhifau ffôn tystion ar goll) hefyd wedi golygu bod nifer y tystion a arolygwyd i ganfod lefel eu boddhad yn rhy isel i roi data dibynadwy. Mae hyn wedi ei gwneud yn anos i'r Ardal ddadansoddi mesurau eilaidd, megis cynnig datganiadau personol gan ddioddefwyr a'r nifer sy'n derbyn y cynnig ac atgyfeirio at sefydliadau cymorth. Fodd bynnag, yr arwyddion yw nad yw datganiadau personol gan ddioddefwyr yn cael eu cynnig mor aml â chynt ac nad yw tystion na dioddefwyr mor hyderus bod eu hanghenion yn cael eu diwallu na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Mae'r Ardal yn cofnodi ei pherfformiad o ran NWNJ a mentrau allweddol eraill, megis cydymffurfio â Chod y Dioddefwyr, ac mae'r adroddiadau rheoli perfformiad yn cynnwys data ar y mesurau sylfaenol. Fodd bynnag nid yw'r broses o ddadansoddi'r hyn sy'n gyfrifol am berfformiad gwael, er enghraifft Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr, a'r camau sydd eu hangen i'w newid wedi ymwreiddio. Nododd yr adroddiad trosglwyddo ar gyfer NWNJ nifer o agweddau lle roedd angen gwelliant, ond nid ailystyriwyd y cynllun gweithredu a baratowyd naill ai gan yr Ardal nac ar y cyd â'r heddlu. Mae cynlluniau gweithredu neu dablau materion eraill wedi cael eu paratoi hefyd, ac mae amcanion wedi cael eu cynnwys mewn cynlluniau busnes a chyflawni, ond nid yw'r rhain wedi cael eu gweithredu'n systematig ychwaith. Nid yw rhai gwiriadau sicrwydd wedi bod yn gadarn. Mae tasgau wedi cael eu nodi, megis dadansoddi'r bwlch ar Siarter y Tystion gan is-grŵp dioddefwyr a thystion y GCJB, ond nid ydynt wedi cael eu cyflawni.

| 9 CYFLWYNO NEWID | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

**9A Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o ddiben a ategir gan gynlluniau perthnasol**

- Ar adeg yr AEI ni fu CCP parhaol ar yr Ardal ers canol 2004. Roedd llawer o reolwyr mewn rolau dros dro ac mae rhai yn parhau felly. Roedd trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol yn gymhleth. Roedd adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) yn 2006 wedi dweud bod yr Ardal yn 'sefyll yn stond' o ran yr angen i gyflwyno newid strategol hanfodol ac nid oes amheuaeth nad oedd y sefyllfa wedi rhwystro'r Ardal rhag datblygu a symud yn ei blaen a rheoli newid yn systematig. Penodwyd CCP parhaol ym mis Awst 2007.

- Cafodd Cynllun Busnes yr Ardal ar gyfer 2006-07 ei gysoni ag amcanion a thargedau cenedlaethol y CPS a rhai'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus ac roedd yn berthnasol i fentrau cenedlaethol ac anghenion lleol, ond ni nodwyd ynddo bob menter newid genedlaethol, na'r ffordd y bwriadodd yr Ardal chwarae ei rhan i'w cyflawni. Roedd rhai anghysondebau ynglŷn â dynodi cyfrifoldebau a cherrig milltir perthnasol a chanlyniadau. Mae cynllun 2007-08 yn ddogfen ychydig yn fanylach ac ehangach, sy'n nodi'r ffordd y mae'r Ardal yn bwriadu sbarduno a gwella'r ffordd y mae'n gweithredu. Nid oes cynllun gweithredol i ategu amcanion lefel uchel. Fodd bynnag mae wedi'i ategu gan sawl cynllun manylach arall sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer eiriolaeth, ymgysylltu â'r gymuned ac amrywiol faterion rhyngasiantaethol. Mae i'r rhain hefyd gynlluniau risg manylach ar wahân.

- Mae Tîm Rheoli'r Ardal yn adolygu perfformiad yn erbyn targedau a nodwyd yn y cynllun busnes yn fisol, yn ogystal ag adolygu cynnydd cyffredinol o ran prosiectau newid mawr bob chwarter. Cynhelir cyfarfod perfformiad misol hefyd i fwrw ymlaen â materion gweithredol sy'n sail i'r cynllun. Mae'n amlwg o gofnodion y rhan fwyaf o gyfarfodydd bod camau gweithredu yn cael eu codi i wella systemau a pherfformiad. Yr hyn sy'n llai amlwg neu ddirnadwy yw a yw'r ymdrechion hyn yn arwain at yr effaith a ddymunir. Mae'r rhaglen rheoli newid fewnol yn cael adroddiadau diweddaru misol drwy ei gyfarfodydd Gwyntyllu a chynhelir amrywiol gyfarfodydd rhyngasiantaethol i drafod rhaglenni newid cyfredol megis CJSSS a rhybuddion amodol.

- Mae cynlluniau unedau, o ansawdd amrywiol, sy'n gysylltiedig â'r cynllun busnes yn nodi amcanion penodol i'r uned dan sylw ac yn dangos ei chyfraniad arfaethedig i dargedau'r Ardal. Yna caiff amcanion unigolion eu cysylltu â chynlluniau unedau. Dangosodd arolwg staff 2006 fod staff Gwent ar y cyfan yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r ffordd y mae hyn yn ymwneud ag amcanion yr Ardal a rhai'r CPS cyfan, gyda'r rhan fwyaf o sgoriau yn uwch na chyfartaledd y CPS.

- Ceir tystiolaeth o gydgynllunio drwy'r GCJB ond yn ystod 2006 ac ar ddechrau 2007 roedd yn anodd i asiantaethau partner wybod gyda phwy y dylent gydgysylltu oherwydd y diffyg eglurdeb canfyddedig yn yr Ardal o ran cyfrifoldebau ar lefel uwch reolwyr, yn enwedig ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol. Er ei bod yn amlwg bod uwch reolwyr wedi chwarae eu rhan gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol o ran cydweithio, mae angen atgyfnerthu cydberthnasau ar bob lefel.

## 9B Mae strategaeth rheoli newid gydlynol a chydgysylltiedig ar gael

- Mae prosiectau newid cenedlaethol ar y cyd wedi cael eu gweithredu gyda llwyddiant amrywiol. Mae cyhuddo statudol ac unedau gofal tystion wedi cael eu sefydlu drwy'r Ardal, ond mae angen gwelliant pellach yn y ffordd y maent yn gweithredu. Mae rhaglen CJSSS a rhybuddion amodol wedi cael eu rhoi ar waith, ond nid yw manteision y cynlluniau hyn a ragwelwyd wedi'u gwireddu'n llawn.

- Drwy gydol 2006-07, ni fu trefniadau ffurfiol na systematig ar gyfer gweithredu newid. Dyrannwyd y cyfrifoldeb am brosiectau newid i reolwyr a goruchwylwyr o dan ofal Tîm Rheoli'r Ardal. Dangosodd yr AEI fod y rhan fwyaf o reolwyr a goruchwylwyr a oedd mewn swyddi dros dro yn teimlo nad oeddent mewn sefyllfa i sbarduno newid, neu nad oeddent yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'r math hwnnw o waith. Er enghraifft er bod yr Ardal wedi nodi, ers peth amser, fod angen ailstrwythuro er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau mewn prosesau gweinyddu ar y cyd â'r heddlu, sefydlu gweinyddiaeth effeithiol ledled yr Ardal a sicrhau llwythi gwaith cytbwys, nid oedd yn glir sut yr oedd y broses ailstrwythuro yn cael ei chynllunio na'i rheoli a phwy oedd yn gyfrifol am ei chyflawni. Mae nodau busnes y newid yn parhau i fod yn ymhlyg yn hytrach nac yn amlwg.

- Cwblhawyd y cam cyntaf o'r rhaglen newid hon a oedd yn golygu symud staff y CPS o uned gyfunol y CPS/heddlu yng Ngorsaf Heddlu Casnewydd ar ddechrau 2007. Mae'r ail gam, a oedd i'w gwblhau ym mis Mehefin 2007, a olygai symud eto i swyddfa newydd a newid terfynol mewn gweithrediadau wedi cael ei ohirio oherwydd anawsterau o ran swyddfeydd.

- Ers i'r CCP newydd gael ei benodi mae trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer rheoli newid. Sefydlwyd Pwyllgor Rheoli i gynllunio'r broses ailstrwythuro a symud swyddfeydd. Mae'r Pwyllgor wedi atgyfnerthu ymrwymiad yr Ardal i'r cyfarfod Gwyntyllu sy'n cynnwys staff mewn gwahanol rolau a graddau. Bydd y Bwrdd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i gynllunio'r broses ailstrwythuro er mwyn sicrhau bod proses ddwyffordd yn datblygu a bod y broses o drosglwyddo rolau a phrosesau yn cael ei chwblhau gyda chyn lleied o darfu â phosibl. Ymddengys bod y fforwm hwn wedi llenwi'r bwlch a nodwyd yn yr AEI diwethaf a'r arolygiad BmP. Mae grŵp llai wedi bod yn cynllunio ar gyfer gweithredu'r Model Busnes Gorau, y mae ei fanylion wedi cael eu cyfleu mewn cyfarfodydd tîm. Mae'r Ardal hefyd wedi cael cymorth a chyngor gan staff y CPS sy'n ymwneud â gweithredu'r Model yn genedlaethol.

- Er nad oes gan yr Ardal reolwr newid, mae Rheolwr Busnes yr Ardal yn cydlynu'r holl brosiectau a mentrau. Ochr yn ochr ag uwch reolwyr, mae Rheolwr Busnes yr Ardal yn ceisio cyd-drefnu prosiectau newydd â phrosesau gweithredol sy'n bodoli eisoes a phrosiectau eraill sy'n mynd rhagddynt er mwyn sicrhau, hyd y gellir, na fydd dyblygu gwaith, a bod llwythi gwaith wedi'u rhannu'n gyfartal. Rhoddwyd enghreifftiau da o hyfforddiant a roddwyd i staff (a swyddogion yr heddlu) gan yr Ardal i ddiwallu'r angen am sgiliau newydd a chodi ymwybyddiaeth o amrywiol fentrau.

- Nid eir ati mewn ffordd systematig i adolygu newydd. Nid yw dyrannu erlynwyr i ddyletswyddau cyhuddo am dri mis ar y tro, fel cynllun peilot yn wreiddiol, wedi cael ei adolygu'n drylwyr er mwyn sicrhau bod manteision disgwyliedig y trefniadau hyn wedi'u gwireddu, er bod peth gwaith ar effeithiau ailstrwythuro wedi'i wneud a bwriedir cynnal adolygiad o drefniadau ar ddechrau 2008. Caiff prosiectau a mentrau newid cenedlaethol cyfredol, er enghraifft gweithredu CJSSS a

rhybuddion amodol, eu hadolygu'n rheolaidd. Er mwyn gwella perfformiad byddai'n fuddiol i'r Ardal pe bai'n sicrhau bod adolygu yn cael ei gynnwys, fel mater o drefn, yn y ffordd y mae'n mynd ati i newid.

- Ochr yn ochr â'r cynllun busnes mae cofrestr risg sy'n cael ei hadolygu ar y cyd ag ef. Caiff risgiau eu nodi'n briodol a chaiff gwrth-fesurau pellach eu mabwysiadu drwy'r broses adolygu. Paratowyd cynllun adfer at ddefnydd Eiriolwyr Llys Uwch nad yw wedi bod ar y trywydd iawn am ddau chwarter cyntaf 2007-08 a nodwyd risgiau pellach. Mae gan fentrau eraill eu hasesiadau risg eu hunain a chânt eu hadolygu fel rhan o gyfarfodydd a gwaith monitro parhaus.

## 9C Mae'r Ardal yn sicrhau bod gan staff y sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau i ddiwallu'r angen busnes

- Mae cynllun hyfforddi a datblygu cynhwysfawr ar waith sy'n ategu'r cynllun busnes. Mae'n trafod angen busnes am y flwyddyn ac yn ymgorffori cynllun lleol ar wahân i ddiwallu'r anghenion hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer y rolau newydd a fydd yn digwydd o ganlyniad i ailstrwythuro. Rhoddwyd hyfforddiant yn lleol mewn drafftio ditiadau, gweithdrefnau Llys y Goron, rhybuddion amodol, gweithredu CJSSS, y Ddeddf Twyll, Model Busnes Gorau, trais yn y cartref, gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol ac erlyn rhagweithiol. Mae cyfreithwyr wedi dilyn cyrsiau dysgu o bell ar ddatgelu a rhybuddion amodol. Mae pob un sy'n ymuno â'r CPS yn dilyn cwrs sefydlu. Hefyd mae'r Ardal, ynghyd â'r heddlu, wedi paratoi pecyn sefydlu i staff ar gyfer ei phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol leol i esbonio rolau pob asiantaeth.

- Ymdrinnir â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y rhaglen sefydlu ac mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff ddilyn modiwl electronig Coleg Erlyn y CPS ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Ymdrinnir â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd yn y cynllun hyfforddiant gyda rhaglenni perthnasol ar gydraddoldeb hil ac ymgysylltu â'r gymuned ac i staff yr Uned Gofal Tystion. Cymerir camau i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod pawb yn cael yr un cyfle i gael hyfforddiant. Ategir hyn gan gryn ddarpariaeth fewnol sy'n arwain at gyrsiau lleol a mwy o hyblygrwydd o ran amseroedd darparu.

- Er na werthusir hyfforddiant yn systematig yn lleol, mae uwch reolwyr yn awyddus i sicrhau bod hynny yn arwain at welliannau mewn perfformiad. Mae hyfforddiant ar faterion penodol wedi arwain at welliannau mewn perfformiad, yn enwedig o ran materion troseddol a'r defnydd o'r system rheoli achosion.

| 10 RHEOLI ADNODDAU | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |

**10A Mae'r Ardal yn ceisio sicrhau gwerth am arian, ac mae'n gweithredu o fewn ei chyllideb**

- Yn 2006-07 gorwariodd yr Ardal ar ei chyllideb gweinyddu heb ei neilltuo o 0.5%. Cafwyd tanwariant o 1.1% yn y gyllideb hon ar gyfer 2005-06 ac yn 2007-08 roedd tanwariant sylweddol erbyn diwedd mis Medi 2007.

- Mae'r Ardal wedi ceisio sicrhau gwerth am arian yn bennaf drwy ddefnydd mwy effeithiol o staff, gweinyddu effeithlon, lefelau salwch isel a lleihau'r defnydd o asiantau. Cyflawnwyd gwerth am arian hefyd drwy gyflogi staff ar gontractau tymor sefydlog, negodi ffioedd am ganllaw arbenigwyr ymlaen llaw, a defnyddio ffyrdd mwy effeithlon o gludo ffeiliau achosion.

- Caiff y gyllideb heb ei neilltuo ei rheoli a'i monitro i sicrhau cofnodion misol cywir. Cysylltir adroddiad cyllideb sy'n rhoi trosolwg o wariant fel rhan o'r pecyn perfformiad a chaiff ei ystyried bob mis gan Dîm Rheoli'r Ardal. Nid yw cyllidebau wedi'u dirprwyo i Benaethiaid Uned unigol; cyfrifoldeb y Rheolwr Busnes yr Ardal yw proffilio a sicrhau y cyfrifir am wariant yn briodol. Yn ystod 2006-07 arweiniodd newidiadau yn y strwythur rheoli at drefniadau anfoddhaol yn cael eu rhoi ar waith i reoli'r gyllideb heb ei neilltuo a chyllidebau costau erlyn, a gyfrannodd at orwariant yn y ddwy. Mae'r newid o orwariant yn 2006-07 i danwariant sylweddol yn 2007-08 yn awgrymu y gellid gwella rheolaethau ariannol, llwyth gwaith a dadansoddiad gallu.

- Gorwariwyd ar gostau erlyn yn 2006-07 o 21.4%, y trydydd gorwariant mwyaf yn genedlaethol. Cafwyd gorwariant yn 2005-06 hefyd, o 16.2% Ar gyfer 2007-08 mae costau erlyn yn cyfateb i wariant proffil ar gyfer y chwarter cyntaf ond roeddent yn isel ar gyfer yr ail chwarter. Caiff achosion costus iawn eu nodi a'u trafod gydag uwch reolwyr. Mae amseroldeb taliadau o dan y cynllun ffioedd graddedig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol; Roedd 57% o'r ffioedd a dalwyd ym mis Mawrth 2007 yn ymwneud ag achosion a gwblhawyd ym mis Chwefror neu fis Mawrth y flwyddyn honno (cyfartaledd cenedlaethol o 50%) ac roedd 94% yn ymwneud ag achosion a gwblhawyd yn y pedwar mis blaenorol (cyfartaledd cenedlaethol o 88%). Mae'r Ardal yn mynd ati i reoli taliadau i siambrau a thrwy hynny'n sicrhau y caiff ffioedd eu cyflwyno o fewn tri mis i ddiwedd yr achos.

- Cafwyd arian ychwanegol gan Bencadlys y CPS ond mae hwn wedi'i neilltuo.
ar gyfer gwariant penodol, er enghraifft, pedwar aelod parhaol o staff y CPS i'r unedau gofal tystion. Yn 2007-08 fe'i defnyddiwyd i ariannu asiantau i helpu i gael gwared ar ôl-groniadau ac i ymddangos mewn llysoedd ychwanegol er mwyn lleihau nifer y treialon a oedd eto i'w cynnal wrth baratoi ar gyfer gweithredu CJSSS. Cafodd yr Ardal arian hefyd i gyflogi cyfreithiwr am dymor sefydlog tra bod un o'i herlynwyr ei hun yn ymdrin ag ymchwiliad hir a chymhleth.

## 10B Mae'r Ardal wedi sicrhau y caiff pob aelod o staff ei leoli'n effeithlon

- Caiff llwythi gwaith a'r ffordd y dosberthir staff rhwng timau eu monitro a'u hadolygu gan Reolwr Busnes yr Ardal yn rheolaidd gyda chyfraniad gan reolwyr llinell eraill. Ailstrwythurwyd yr Ardal ar ddechrau 2007 ac fel rhan o'r broses tynnwyd staff a oedd wedi'u cydleoli yng Ngorsaf Heddlu Casnewydd. Un o nodau allweddol y broses ganoli oedd cynyddu'r defnydd o erlynwyr yn y llys a manteisio ar arbedion maint ond mae sesiynau llys gan staff mewnol wedi lleihau mewn gwirionedd ond mae'n bosibl bod y llysoedd ychwanegol a drefnwyd o dan CJSSS, lle defnyddir asiantau, wedi effeithio rywfaint ar y canlyniadau hyn. Ym mis Medi 2006 adolygwyd y ffordd y câi cyfreithwyr eu dyrannu o ran cyngor cyn cyhuddo gan arwain at gynllun peilot lle y cânt eu dyrannu i ganolfannau cyhuddo am dri mis ar y tro. Amcan y cynllun oedd sicrhau parhad yn y broses gwneud penderfyniadau a gwella'r cyswllt â phorthgeidwaid yr heddlu, a thrwy hynny wella'r perfformiad cyffredinol. Nid yw gwerthusiad llawn o'r cynllun wedi'i gynnal eto.

- Mae pedwar gweithwyr achos dynodedig ar hyn o bryd. Yn 2006-07 cyflawnodd yr Ardal ei tharged o 10% ar gyfer eu defnyddio yn y llys ond roedd perfformiad yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 10.4% o'r holl sesiynau yn y llysoedd ynadon o gymharu â 14.7%. Ar gyfer 2007-08 mae'r targed wedi cynyddu i 17%. Mae'r Ardal yn cyflawni 14.9% o ddefnydd ar hyn o bryd (hyd at fis Medi 2007) ac mae'r canlyniadau gyda'r defnydd isaf yn genedlaethol. Maent wedi cael y cyfrifoldeb am drefnu eu rota eu hunain, er bod Penaethiaid Uned yn monitro hyn bob mis.

- Ar hyn o bryd nid oes disgwyliadau penodol i gyfreithwyr o ran nifer y sesiynau y mae erlynwyr yn ymgymryd â hwy yn y llys. Yn 2006-07, ymgymerwyd â chyfran uchel o sesiynau llysoedd ynadon (83.8%) gan staff mewnol, a oedd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Y targed ar gyfer 2007-08 yw 90% o ddefnydd mewnol, fodd bynnag mae perfformiad wedi gostwng i 80.1% (ail chwarter, 2007-08) sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 84.0%. Mae'r Ardal wedi cyflogi dau gyfreithiwr ar gontractau tymor sefydlog yn ddiweddar er mwyn lleihau'r defnydd o asiantau.

- Mae dau Eiriolwr Llys Uwch penodedig sy'n ymgymryd ag eiriolaeth yn Llys y Goron yn llawn amser ac mae 8.5 o gyfreithwyr eraill wedi hyfforddi i fod yn eiriolwyr llys uwch ond mae ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol eraill. Rhagorodd yr Ardal ar ei tharged yn 2006-07 ar gyfer arbedion a arweiniodd at y defnydd o Eiriolwyr Llys Uwch ac roedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn 2006-07 mae Eiriolwyr Llys Uwch wedi ymgymryd â 223 o sesiynau i gyd. Ceisiadau am fechnïaeth a gwrandawiadau ple a rheoli achos oedd y rhan fwyaf ohonynt, er eu bod wedi gweithredu fel bargyfreithwyr ieuaf mewn achosion o lofruddiaeth ac achosion cymhleth eraill. Fodd bynnag ychydig iawn o waith treialon a wnaed. Ar gyfer 2007-08 pennwyd targed i Ardal Gwent o gynyddu arbedion o sylfaen isel 2006-07 o £61,000 i £168,800. Erbyn diwedd mis Medi 2007 dim ond 44% o'r targed yr oedd yn ei gyflawni a pherfformiad Gwent oedd y perfformiad gwaethaf ond un o blith holl Ardaloedd y CPS. Mae dau Eiriolwr y Goron wedi cael eu recriwtio'n ddiweddar. Ar adeg yr asesiad hwn nid oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer dechrau yn y swydd ond y gobaith yw y byddant yn cynyddu nifer y treialon yr ymgymerir â hwy a'r arbedion sy'n gysylltiedig ag Eiriolwyr Llys Uwch. Er i'r Ardal baratoi cynllun adfer i gynyddu defnydd, gan gynnwys gwneud gwell defnydd o Eiriolwyr Llys Uwch a delir o gyllideb heb ei neilltuo, mae'n annhebygol o gyflawni targed 2007-08 ar gyfer arbedion sy'n gysylltiedig ag Eiriolwyr Llys Uwch.

- Absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2006-07 oedd 6.4 diwrnod ar gyfartaledd (hyd at fis Rhagfyr 2006) a oedd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 8.5. Yn fwy diweddar cynyddodd y gyfradd i 9.4 diwrnod, o ganlyniad i ddau aelod o staff â salwch hirdymor. Rhoddir adroddiadau i reolwyr yn rheolaidd a chynhelir cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith gyda staff sy'n dychwelyd ar ôl cyfnod o salwch.

- Ystyrir ceisiadau am weithio oriau hyblyg yn erbyn anghenion busnes gan y rheolwr llinell yn y lle cyntaf. Mae ymgais i newid rhai trefniadau gweithio oriau hyblyg a oedd yn bodoli eisoes wedi bod yn aflwyddiannus ac mae wedi effeithio ar allu'r Ardal i ddefnyddio staff yn fwy effeithiol. Mae cyllideb goramser wrth gefn pan fydd ôl-groniadau yn datblygu.

| 11 RHEOLI PERFFORMIAD ER MWYN GWELLA | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwella** |

## 11A Mae rheolwyr yn atebol am berfformiad ac mae gwybodaeth am berfformiad yn gywir ac yn amserol

- Nododd yr AEI fod yr Ardal, ar ôl cydnabod gwendidau yn y fframwaith perfformiad, yn dechrau ar raglen i wella rheoli perfformiad a meithrin diwylliant o berfformiad. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad ledled Gwent yn gwella erbyn hyn.

- Argymhellodd yr AEI y byddai'n fuddiol pe bai'r Ardal yn datblygu pecyn perfformiad cynhwysfawr. Er bod y pecyn yn cael ei fireinio o hyd, mae wedi'i gyflwyno mewn fformat cynyddol ddefnyddiol a dealladwy ac mae'n cwmpasu nifer fawr o faterion sy'n ymwneud â pherfformiad gan gynnwys penderfyniadau a chanlyniadau gwaith achos, cyllideb, absenoldeb oherwydd salwch, ac eiriolaeth. Mae perfformiad hefyd yn cael ei feincnodi yn erbyn Ardaloedd CPS o faint tebyg a'r perfformiad cenedlaethol cyfartalog. Caiff y cyfrifoldeb am goladu'r wybodaeth ei rannu hefyd, ond caiff ei gydlynu gan Reolwr Perfformiad yr Ardal ac mae wedi meithrin gwell dealltwriaeth o berfformiad ymhlith y staff.

- Caiff y pecyn perfformiad ei ddosbarthu i uwch reolwyr i'w ystyried yn y cyfarfodydd perfformiad misol, lle trafodir materion gweithredol manylach, ac yng nghyfarfodydd misol Tîm Rheoli'r Ardal lle trafodir materion perfformiad lefel uchel. Caiff canlyniadau perfformiad eu cyfleu i staff ar hysbysfyrddau, mewn cyfarfodydd tîm ac ychwanegir crynodeb o uchafbwyntiau at gylchgrawn y staff.

- Ymgymerir â sicrwydd ansawdd a gwaith cymoni cyffredinol ar ddata gan y gweinyddydd data ac fe'u goruchwylir gan Reolwr Busnes yr Ardal. Mae'r gwiriadau yn cynnwys terfynu achosion a nodi mesurau unioni sydd eu hangen cyn y terfyn amser misol ar gyfer paratoi'r adroddiad perfformiad. Mae'r Ardal hefyd wedi adolygu ansawdd yr amrywiol fathau o ddata drwy dîm gweithredu lleol Compass. Mae'r mesurau hyn wedi helpu i godi hyder ymhlith asiantaethau o ran dibynadwyedd ei data yn ogystal â rhoi llinell sylfaen fwy cywir y gellir targedu mesurau gwella yn ei herbyn. Bydd un prosiect sydd wrthi'n cael ei ddatblygu yn cysylltu system gyfrifiadurol yr heddlu sy'n ymdrin â materion cyfiawnder troseddol a system y CPS. Bydd hwn o gymorth nid yn unig o ran lleihau dyblygu a chynyddu effeithlonrwydd drwy gyflwyno ffeiliau electronig ond hefyd o ran cywirdeb data rhwng yr asiantaethau.

- Mae disgwyliad cyffredinol y bydd Penaethiaid Uned a rheolwyr eraill ar bob lefel yn cymryd camau i gywiro a gwella perfformiad yn erbyn targedau neu amcanion. O fewn fframwaith perfformiad yr Ardal neilltuir cyfrifoldebau am gyflawni targedau ac effeithiolrwydd gweithredol i reolwyr. Gwelwyd enghreifftiau ac roedd yn amlwg bod uwch reolwyr a rheolwyr canol yn cymryd camau i wella a blaenoriaethu gweithgarwch er mwyn cyflawni targedau. Cafodd y rhan fwyaf o gamau gweithredu a godwyd yn y cyfarfod perfformiad ac yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Ardal eu hystyried eto yn y cyfarfod nesaf er mwyn sicrhau bod camau unioni wedi cael eu cymryd. Mae'r cynllun adfer o ran arbedion sy'n gysylltiedig ag Eiriolwr Llys Uwch yn enghraifft lle mae

cynllun gweithredu ffurfiol wedi cael ei baratoi o ganlyniad i nodi perfformiad gwael. Fodd bynnag ar y cyfan mae lle i wella'r ffordd y mae'r Ardal yn nodi problemau posibl drwy well dadansoddi rhagfynegol a gwerthuso, monitro ac adolygu systematig.

- Mae'r fframwaith o gyfarfodydd a chyfrifoldebau penodedig rheolwyr a enwyd yn y cynllun busnes yn sicrhau bod rheolwyr ar bob lefel yn rhan o'r gwaith o gyflawni safonau a thargedau. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i reolwyr ar bob gradd i adolygu systemau gweithredol gwahanol er mwyn sicrhau gwelliannau. Fodd bynnag, dangosodd gwiriadau realiti fel rhan o'r asesiad hwn fod angen i systemau ar gyfer adolygiad perfformiad fod yn gadarnach, yn enwedig monitro systemau terfynau amser cadwraeth, ansawdd llythyrau at ddioddefwyr troseddau a pherfformiad yn y llys.

- Mae amcanion yn y cynllun busnes wedi'u cysylltu â chynlluniau unedau ac yn eu tro ag amcanion unigolion, fel y bydd staff yn deall yn glir yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Yna, defnyddir y system arfarnu i ryw raddau, i wella perfformiad personol, er enghraifft pennwyd amcanion ar gyfer y defnydd o'r system rheoli achosion gan gyfreithwyr sydd wedi gwella defnydd. Mae lle i ehangu'r dull gweithredu hwn i gynnwys agweddau eraill ar berfformiad gwan.

### 11B Mae'r Ardal yn ymrwymedig i reoli perfformiad ar y cyd â phartneriaid CJS

- Mae rheolwyr ardal yn gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol mewn grwpiau gyda'r nod o sicrhau gwelliant. Yn benodol mae uwch reolwyr ac aelodau eraill o staff yn cymryd rhan yng ngwaith y GCJB a grwpiau rhyngasiantaethol eraill. Mae gan y GCJB is-grwpiau thematig gwahanol ac mae'r CPS wedi'i gynrychioli ar bob un.

- Mae gweithio rhyngasiantaethol wedi arwain at rai strategaethau ar y cyd sydd wedi'u hanelu at wella perfformiad a sicrhau gweithio mwy effeithlon rhwng partneriaid cyfiawnder troseddol. Gwelwyd enghreifftiau o'r ffordd y mae cydweithio a rhannu data perfformiad wedi arwain at well canlyniadau, protocolau neu fwy o effeithlonrwydd gan gynnwys rhannu gwybodaeth am droseddau casineb a alluogodd yr heddlu i dargedu grwpiau penodol o ddioddefwyr, gweithredu strategaeth ar y cyd i wella perfformiad o ran troseddwyr ifanc cyson, a chyflwyno systemau yng nghyfarfod y PTPM i nodi gwendidau wrth baratoi ffeiliau ar sail ranbarthol ac unigol. Er bod yr enghreifftiau hyn yn dangos y gall strategaethau gwella fod yn llwyddiannus, maent yn eithaf cyfyngedig ac mae angen atgyfnerthu perfformiad sy'n dibynnu ar gyd-ddibyniaeth rhwng y CPS a'r heddlu, a'r CPS a'r llysoedd ynadon. Erys gwireddu manteision o ran rhai o'r strategaethau gwella pwysig yn her i'r Ardal a'i phartneriaid ac mae'n cynnwys CJSSS, rhybuddion amodol, NWNJ a chyhuddo statudol.

- Mae'r Ardal yn cyfnewid gwybodaeth am berfformiad ag asiantaethau partner. Rhennir gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau a'r CPS gan ddarparu PTPM, gwybodaeth am achosion anffafriol, data ar elw troseddau a throseddau casineb i'w trafod mewn cyfarfodydd partner. Mae Rheolwr Perfformiad yr Ardal hefyd yn darparu gwybodaeth berthnasol i'r GCJB.

### 11c Mae'r systemau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith achos a'r broses o'i erlyn yn y llys yn gadarn ac yn seiliedig ar waith monitro a dadansoddi dibynadwy a chywir

- Roedd cydymffurfiaeth â CQA ar gyfer 2006-07 yn 68% o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 84% a chan ardal Gwent y cofnodwyd y gydymffurfiaeth leiaf yn genedlaethol yn ystod chwarter olaf 2006-07. Yn ystod chwarter cyntaf 2007-08 roedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ond mae wedi gostwng eto ers hynny.

- Dengys asesiad yr Ardal ei hun o safonau ansawdd ei gwaith achos ei bod ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer 2006-07. O ran datgelu mae dipyn yn is na'r safon gyfartalog yn genedlaethol. Ni chytunwyd ar safonau i sicrhau cysondeb yn y gwaith o asesu ansawdd gwaith achos; gan nad oes meincnodi o'r fath efallai fod cadernid yr asesiad yn amrywio. Ni allai'r Ardal roi enghreifftiau o ffurflenni asesu wedi'u cwblhau.

- Caiff cydymffurfiaeth â CQA ei mesur a'i monitro ar lefel yr Ardal ac mae'n rhan o'r adroddiad perfformiad misol a ystyrir mewn cyfarfodydd perfformiad ac yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Ardal. Caiff canfyddiadau CQA eu cyfleu i unigolion a chaiff unrhyw dueddiadau newydd eu trafod mewn cyfarfodydd tîm, er nad oedd yn glir a yw perfformiad wedi gwella o ganlyniad.

- Er bod polisi'r Ardal yn nodi y dylid monitro pob eiriolwr o leiaf ddwywaith y flwyddyn a chwblhau ffurflenni, nid oes proses fonitro systematig na ffurfiol gyda'r nod o werthuso perfformiad eiriolwyr. Ni wnaed gwaith monitro yn ystod dau chwarter cyntaf 2007-08.

| 12 ARWEINYDDIAETH | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

### 12A Mae'r tîm rheoli yn cyfleu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad yr Ardal yn dda

- Mae'r Ardal wedi mabwysiadu gweledigaeth a gwerthoedd cenedlaethol a chaiff y rhain eu hymgorffori yng Nghynllun Busnes yr Ardal 2007-08. Mae'r naill a'r llall wedi cael eu datblygu a'u hyrwyddo drwy gynhadledd ddeuddydd i'r staff ar ddechrau'r flwyddyn fusnes. Manteisir ar y cyfle i raeadru gwybodaeth sy'n berthnasol i fusnes a materion staffio'r CPS yn y gynhadledd hon. Nodir yr amcanion ar gyfer y flwyddyn a'r gweithgareddau sy'n sail i'w cyflawni yn y cynllun. Dangosodd yr arolwg o staff, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2006, fod ymwybyddiaeth ymhlith y staff o weledigaeth Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus o'r CPS yn dod yn 'Wasanaeth Erlyn o'r Radd Flaenaf' yn uchel sef 90% o gymharu â 80% yn genedlaethol.

- Nodwyd yn adroddiad yr AEI y sefyllfa anfoddhaol a achoswyd gan y methiant hirdymor i benodi CCP parhaol a'r ffaith mai penodiad dros dro yw penodiad Rheolwr Busnes yr Ardal. Ar adeg yr AEI roedd sawl aelod o staff hefyd mewn uwch swyddi rheoli neu swyddi rheoli canol ar sail weithredol, yr oedd rhai ohonynt wedi bod yn eu swydd ar sail cylchdro byrdymor. Er gwaethaf y trefniadau hyn, gwelodd yr AEI ymrwymiad ymhlith uwch reolwyr, cydnabyddiaeth o'r heriau a pharodrwydd i symud yr Ardal yn ei blaen os oedd modd. Mae rheolwyr yn cydweithio. Fodd bynnag nid yw'n syndod nad oedd staff yn siŵr at bwy y dylent droi er mwyn gwneud penderfyniadau a theimlai asiantaethau partner rwystredigaeth hefyd ynglŷn â diffyg CCP parhaol a'r diffyg canfyddedig o strwythur gwneud penderfyniadau ar lefel strategol yn y CPS.

- Yn sgîl penodi CCP newydd, cymerwyd rhai camau i hyrwyddo corfforaetholdeb.
  Mae ymagwedd gorfforaethol yn cael ei meithrin drwy fframwaith perfformiad yr Ardal ac mae diwylliant o berfformiad yn datblygu. Mae'r cam cyntaf o broses ailstrwythuro'r Ardal, a ddaeth â thimau ynghyd mewn un lleoliad daearyddol, hefyd wedi dechrau ei gwneud yn fwy cydlynol.

- Mae uwch reolwyr yn sicrhau eu bod ar gael i'r staff ar y cyfan. Fodd bynnag dangosodd yr arolwg cenedlaethol fod deialog rhwng rheolwyr a staff yn llai effeithiol ar y cyfan nag ydoedd yn genedlaethol a bod hyn wedi cael effaith negyddol ar forâl. Dim ond 40% a ddywedodd eu bod yn cael cyfarfodydd rheolaidd (o gymharu â 59% yn genedlaethol) a dim ond 46% a gredodd eu bod yn cael cyfarfodydd effeithiol (o gymharu â 55%). Mae cynnydd wedi cael ei wneud ers hynny a nodweddir hyn gan ddull rheoli mwy uniongyrchol a fu'n bosibl drwy ganoli pob tîm yn swyddfa'r CPS yng Nghasnewydd. Fodd bynnag ceir methiant o hyd i gynnal cyfarfodydd tîm yn ddigon aml ac nid ydynt bob amser wedi'u cofnodi'n briodol. Mae sefydlu cyfarfod Gwyntyllu Barn i gael sylwadau'r staff ynglŷn ag ailstrwythuro wedi bod yn gam cadarnhaol.

- Mae'r CCP newydd wedi cynnal cyfarfodydd unigol gyda rheolwyr ac aelodau eraill o staff er mwyn dod i adnabod unigolion yn well ac ymgyfarwyddo â materion yr Ardal. Mae Gwent hefyd wedi cynnal ei harolwg mewnol ei hun o'r staff mewn ymgais i werthuso a yw cam cyntaf y broses ailstrwythuro wedi cael effaith gadarnhaol ar rai o'r canlyniadau negyddol yn yr arolwg o staff. Bydd gwerthusiad ar gael ar ddiwedd mis Rhagfyr 2007.

- Yn ystod yr AEI roedd yn amlwg bod y strwythur arwain ac yna gydleoli'r CPS â'r heddlu yng Ngorsaf Heddlu Gwent yn effeithio ar weithrediad yr Ardal mewn sawl ffordd. Er gwaethaf y berthynas waith dda ag unedau treialon penodedig yr heddlu, araf fu datblygiad perthynas waith effeithiol â'r heddlu ac ethos tîm erlyn. Amlygwyd hyn mewn bylchau yng ngweithrediad yr Ardal ac arweiniodd at ddiwylliant o feio yn datblygu rhwng asiantaethau. Ers symud o'r uned a gydleolir mae rolau'r CPS a'r heddlu wedi dod yn glir. Mae'r CCP a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod bod angen meithrin perthynas waith well ac i'r perwyl hwn bwriedir cynnal gweithdy CPS/yr heddlu ym mis Rhagfyr 2007 i drafod llawer o'r materion sy'n effeithio ar weithrediadau rhwng y ddwy asiantaeth. Erbyn hyn mae'r CCP a'r Prif Gwnstabl yn cael cyfarfodydd un wrth un yn rheolaidd.

- Mae'r CPS yn cyfrannu at y weledigaeth a rennir o system cyfiawnder troseddol effeithiol a lywir gan y GCJB. Mae staff y CPS ar bob un o is-grwpiau'r Bwrdd, ac mae uwch reolwyr yn cadeirio neu'n chwarae rhan allweddol yn y rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig â busnes craidd y CPS.

**12B Mae uwch reolwyr yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer moeseg, gwerthoedd a nodau'r Ardal a'r CPS ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth**

- Nid oes polisi cydnabod neu wobrwyo ffurfiol ond bwriedir gweithredu un erbyn mis Ebrill 2008, ynghyd â digwyddiad gwobrwyo. Dangosodd yr arolwg o staff mai yn Ardal Gwent y gwelwyd y gyfran isaf o staff sy'n ystyried bod system effeithiol o gydnabod pobl sy'n perfformio'n dda sef 2%, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 14%. Gwneir ymdrech i gydnabod perfformiad da gan gynnwys diolch i unigolion penodol mewn cyfarfodydd, cofnodion a chylchlythyrau. Mae rheolwyr o'r farn bod lleoli staff y CPS gyda'r heddlu i ffwrdd o'r brif swyddfa yn ystod 2006 wedi peri iddynt deimlo'n ynysig o bosibl, rhywbeth sydd wedi'i unioni erbyn hyn.

- Nododd OPA 2005 ddiffyg hyder yr ymdrinnid â materion o ran 'urddas yn y gweithle' yn deg ac yn briodol pe baent yn cael eu codi. Dangosodd arolwg staff 2006 welliant mawr o ran hyrwyddo urddas yn y gweithle yn gyffredinol; roedd 69% o staff yn credu eu bod yn cael eu trin yn deg a chyda pharch o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 63%.

- Er na chafwyd unrhyw gwynion gan y staff ynghylch materion o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, nid oedd uwch reolwyr yn ymwybodol o'r angen i integreiddio'r egwyddorion hyn yn glir fel rhan o'u strategaethau, eu cynlluniau a materion adnoddau dynol. Prin y cafodd y materion hyn eu monitro er ei bod yn amlwg bod rheolwyr yn ystyried materion o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn anuniongyrchol fel rhan o leoli staff a mynediad at hyfforddiant. Mae gan y CPS Gydlynydd Cydraddoldeb dros Gymru, a rennir gyda'r tair Ardal arall yng Nghymru, er bod ei gylch gwaith yn dueddol o fod yn gyfyngedig i annog gweithlu mwy amrywiol a chynghori ar ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned.

- Ni chafwyd unrhyw gwynion am ragfarn yn y gweithle ac mae uwch reolwyr yn ceisio sicrhau amgylchedd gwaith lle nad oes allgáu. Ymdrinnir ag ymddygiad amhriodol mewn ffordd briodol a chymesur ac mae wedi arwain at gamau disgyblu mewn perthynas â'r camddefnydd o e-bost. Ymdriniwyd â safonau gwisg i gyfreithwyr hefyd ar y cyd â Chyngor Whitley. Ymchwiliwyd i gwynion am y CPS gan asiantaeth arall a'u datrys yn anffurfiol.

- Mae'r Ardal yn anelu at weithlu mwy cynrychioliadol. Cyfran y staff duon a lleiafrifoedd ethnig (BMA) yw tua 2% o gymharu â 4% o gynrychiolaeth yn y gweithlu lleol ac mae gan yr Ardal gynllun gweithredu cynrychiolaeth yn y gweithlu ac iddo bedwar pwynt gyda'r nod o gau'r bwlch

hwn erbyn mis Ebrill 2008. Mae'r Cydlynydd Cydraddoldeb wedi bod yn weithgar o ran trosglwyddo manylion swyddi gwag i grwpiau BME drwy sefydliadau sefydledig. Mae'r Ardal yn ceisio helpu staff i ddatgan anableddau eu hunain a chodi ymwybyddiaeth bod i'r term ddefnydd ehangach bellach nag a ddeallwyd yn y gorffennol.

| 13 SICRHAU HYDER Y GYMUNED | OPA 2005 | OPA 2007 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Da** | **Wedi gwella** |

### 13A Mae'r Ardal yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau hyder y gymuned

- Mae'r Ardal wedi cadw ei hymrwymiad i ymgysylltu â'r gymuned er gwaethaf absenoldeb personél allweddol ac arweinyddiaeth fylchog yn ystod 2006-07. Mae uwch reolwyr yn deall yr angen cynyddol i wella hyder y gymuned a dod yn fwy atebol i'r cyhoedd, yn enwedig wrth i'r rôl erlyn ddatblygu. Mae ymrwymiad uwch reolwyr i ymgysylltu â'r gymuned a gwella hyder yn y system cyfiawnder troseddol yn amlwg.

- Mae cynllun busnes yr Ardal yn adlewyrchu'r ymrwymiad strategol i wella ymgysylltu â'r gymuned ac mae wedi'i ategu gan strategaeth fanylach ar ymgysylltu â'r gymuned. Mae'n cynnwys camau gweithredu clir, rhai terfynau amser a chyfrifoldebau yn ogystal â datblygu cysylltiadau ag agweddau eraill ar y cynllun busnes sy'n ymwneud â gwaith achos hil, homoffobig a thrais yn y cartref, er bod y rhan fwyaf o'r canlyniadau a ragwelir yn eithaf cyffredinol. Yna caiff amcanion o gynlluniau ymgysylltu â'r gymuned eu cysylltu ag amcanion person i unigolion priodol. Nid yw'r Ardal wedi datblygu'r cynlluniau hun ar ei phen ei hun ond gyda phartneriaid eraill a thrwy ei haelodaeth o'r GCJB, a fu'n fodd i weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig ac osgoi dyblygu ar y cyfan. Mae'r Ardal hefyd wedi ymgynghori'n allanol o ran cynnwys ei chynllun arfaethedig cyn ei gyhoeddi. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu gan Reolwr Busnes yr Ardal sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Dîm Rheoli'r Ardal.

- Mae'n amlwg bod yr Ardal yn ystyried ymgysylltu â'r gymuned a gwella hyder y gymuned o ran dwyn troseddwyr gerbron llys fel rhan o fusnes craidd. Nodir digwyddiadau mewn cofnod o ymgysylltu â'r gymuned sy'n disgrifio natur y digwyddiad a fynychwyd a pha fath o adborth a gafwyd. Er mai uwch reolwyr yn bennaf sy'n mynd i ddigwyddiadau mae tystiolaeth bod aelodau eraill o staff, gan gynnwys gweithwyr achos dynodedig, yn chwarae mwy o ran ac mae'r Ardal yn weithgar o ran ennyn diddordeb y staff ar bob lefel. Mae nifer y gweithgareddau a'u hamrywiaeth yn eang am Ardal gymharol fach, er nad yw ond megis cychwyn ar y gwaith o geisio dysgu a gwerthuso effeithiolrwydd ei pholisi ar ymgysylltu. Mae Panel Craffu ar Droseddau Casineb (menter genedlaethol) yn cael ei ddatblygu, gyda'r nod o drafod achosion a nodi pwyntiau dysgu. Caiff hwylusydd annibynnol ei ddefnyddio i gydlynu'r cyfarfodydd hyn.

- Mae gan yr Ardal wybodaeth am y ddemograffeg leol o sawl ffynhonnell ond yn bennaf drwy'r cyngor lleol. Mae'n cadw cyfeirlyfr o enwau cyswllt ac mae'r unedau gofal tystion hefyd yn datblygu cyfeirlyfr o grwpiau cymunedol lleol drwy eu hymwneud ag asiantaethau eraill a grwpiau gwirfoddol.

- Mae'r Ardal yn ceisio ymgysylltu â grwpiau sydd fwyaf tebygol o gael eu hallgáu neu wynebu gwahaniaethu, yn enwedig y rhai sy'n debygol o fod yn destun trosedd casineb. Mae'n gwneud hynny ar y cyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol. Ymhlith yr enghreifftiau da mae gweithio gyda'r heddlu i ddangos sut mae gwahanol droseddau yn effeithio ar gymunedau, gan arwain at ganolbwyntio adnoddau'r heddlu'n well; bod yn rhan o bwyllgor sy'n ystyried gofal pobl â salwch meddwl a'r rhai sy'n agored i niwed; deall materion diwylliannol mewn erlyniad cymhleth o

droseddwyr Fietnameaidd; bod yn rhan o baneli amlasiantaethol; a sefydlu fforwm ar gyfer troseddau homoffobig.

- Mae'r Ardal yn cydnabod mai proses araf ac ystyriol yw ennyn hyder ac ymgysylltu â chymunedau. Araf fu datblygiad newidiadau a gwelliannau mewn gwasanaethau o ganlyniad i ymgysylltu o'r fath. Gwelwyd newidiadau mewn gwasanaethau yn bennaf drwy ymwybyddiaeth gynyddol bod angen i CPS Gwent barhau i fod yn atebol i'r cyhoedd a thrwy godi ymwybyddiaeth y staff o'r materion diwylliannol amrywiol sy'n gysylltiedig ag erlyn achosion penodol. Mae hyn wedi arwain at ddarparu gwasanaethau mewn ffordd well, ond nid un y gellir ei mesur o reidrwydd.

- Nid oes unrhyw ffordd benodol o fesur hyder y cyhoedd yn y CPS, ond mae'n cyfrannu at hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol drwy gyflawni ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol, a thrwy ymgysylltu â'r cyhoedd yn uniongyrchol a thrwy'r cyfryngau. Mae hyder y cyhoedd yng ngallu'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Ngwent i ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell wedi gostwng o 40.0% ym mis Medi 2004 i 36.3% erbyn mis Mehefin 2007, fel y'i mesurwyd gan Arolwg Troseddu Prydain. Erys o dan y cyfartaledd cenedlaethol o 42.3%.

- Nid yw'r Ardal wedi datblygu strategaeth i'r cyfryngau na chytundeb lefel gwasanaeth gyda'r heddlu neu'r GCJB eto. Perthynas adweithiol yn hytrach na rhagweithiol sydd rhwng y grwpiau hyn er bod Swyddog Cyfathrebu'r Ardal, adnodd a rennir â CPS De Cymru, yn cynnig un pwynt cyswllt i'r cyfryngau. Ymddengys bod angen i asiantaethau cyfiawnder troseddol, drwy'r GCJB, gydlynu strategaeth i'r cyfryngau ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hyder a nodwyd ymhlith y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol leol. Eto i gyd mae'r Ardal wedi meithrin perthynas â rhannau o'r wasg ac mae Erlynydd Dosbarth y Goron yn ysgrifennu colofn mewn papur newydd lleol lle mae'n esbonio rôl y CPS. Rhagwelir y bydd hyn yn gyfrwng i fwy o ryngweithio yn y dyfodol. Mae'r CCP newydd hefyd wedi cyhoeddi cyfnodolyn allanol arloesol gyda'r bwriad o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid cyfiawnder troseddol am y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn y CPS a'r broses ailstrwythuro fewnol leol.

# ATODIADAU

## A DATA PERFFORMIAD

### Agwedd 1: Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo

| | Achosion yn y llysoedd ynadon | | | | Achosion yn Llys y Goron | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 | Targed cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2005-06 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11.0% | 15.7% | 27.7% | 20.3% | 11.0% | 13.1% | 16.6% | 12.6% |
| Cyfradd pledio'n euog | 52.0% | 69.2% | 58.4% | 62.3% | 68.0% | 66.5% | 50.0% | 66.3% |
| Cyfradd athreulio | 31.0% | 22.0% | 35.0% | 27.6% | 23.0% | 22.2% | 33.3% | 22.4% |

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Penderfyniadau cyn cyhuddo sy'n arwain at gollfarn ar ôl cyhuddiad | 78.0% | 73.6% |

### Agwedd 2: Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn y llysoedd ynadon

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) fel canran o'r achosion a gwblhawyd yn y llysoedd ynadon | 84.3% | 85.1% |

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 43.8% | 41.1% |
| Cyfradd treialon chwâl | 37.3% | 35.1% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 18.9% | 23.7% |
| Cyfradd treialon a ddirymwyd | 22.5% | 19.3% |

**Perfformiad cyffredinol o ran troseddwyr ifanc cyson (rhwng arestio a dedfrydu)**

| Targed cenedlaethol | Perfformiad cenedlaethol 2006 | Perfformiad yr Ardal 2006 |
|---|---|---|
| 71 o ddiwrnodau | 72 o ddiwrnodau | 84 o ddiwrnodau |

*Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt*

| | Targed CJS yr Ardal 2006-07 | Perfformiad CJS yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Nifer y troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt | 15,438 | 16,653 |

| Troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt yn ôl canran | Cenedlaethol 2006-07 | Ardal cyfiawnder troseddol 2006-07 |
|---|---|---|
| Troseddau a ystyriwyd (TCIs) | 8.5% | 6.0% |
| Hysbysiadau cosb am anrhefn (PNDs) | 10.3% | 8.9% |
| Rhybuddion ffurfiol | 5.8% | 3.9% |
| Rhybuddion | 26.5% | 26.0% |
| Collfarnau | 48.8% | 55.3% |

## Agwedd 3 Sicrhau canlyniadau llwyddiannus yn Llys y Goron

| | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Canlyniadau llwyddiannus (collfarnau) fel canran o'r achosion a gwblhawyd yn Llys y Goron | 77.7% | 78.2% |

| Cyfraddau treial | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 48.2% | 58.3% |
| Cyfradd treialon chwâl | 39.5% | 31.5% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 12.4% | 10.2% |

| Gorchmynion Deddf Elw Troseddau | Targed yr Ardal 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|
| Gwerth | £379,898 | £665,367 |
| Nifer | 50 | 43 |

## Agwedd 10: Rheoli adnoddau

| | 2005-06 | 2006-07 |
|---|---|---|
| Alldro cyllideb costau gweinyddu heb eu neilltuo | 98.9% | 100.5% |

| Lleoli staff | Targed cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad cenedlaethol 2006-07 | Perfformiad yr Ardal 2006-07 |
|---|---|---|---|
| Lleoli DCW (fel % o'r sesiynau yn y llysoedd ynadon) | 17.2% | 14.7% | 10.4% |
| Arbedion HCA yn erbyn targed yr Ardal | 100% | 138.4% | 134.4% |
| Absenoldeb oherwydd salwch (fesul cyflogai y flwyddyn) | 7.5 o ddiwrnodau | 8.5 o ddiwrnodau | 6.4 o ddiwrnodau |

## Agwedd 13: Sicrhau hyder y gymuned

**Hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd yr asiantaethau cyfiawnder troseddol o ran dwyn troseddwyr o flaen eu gwell (Arolwg Troseddu Prydain)**

| Canran sylfaen ardal y CJS 2002-03 | 2004-05 (OPA diwethaf) | Perfformiad yn 2006-07 |
|---|---|---|
| 32.0% | 40.0% | 36.3% |

# B ASIANTAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL A SEFYDLIADAU A GYNORTHWYODD Â'R ASESIAD HWN O BERFFORMIAD CYFFREDINOL

Cynhaliwyd arolygiad effeithiolrwydd o'r Ardal ym mis Ionawr 2007 pan ystyriwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau a chynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb ag amryw gynrychiolwyr o'r asiantaethau cyfiawnder troseddol. Felly nid oedd angen rhoi baich arall ar asiantaethau partner drwy ofyn iddynt lenwi holiaduron. Mae eu cyfraniadau o'r AEI wedi cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r adroddiad OPA hwn lle y bo'n briodol.

**Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu crynodeb neu fersiwn cyflawn o'r llyfryn hwn mewn Braille, print bras neu mewn ieithoedd eraill.**

**I gael gwybodaeth neu i gael mwy o gopïau o'r llyfryn hwn, cysylltwch â'n Tîm Cyhoeddiadau ar 020 7210 1197, neu ewch i'n gwefan: www.hmcpsi.gov.uk**

Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Swyddfa Llundain:
26-28 Old Queen Street
London SW1H 9HP
Ffôn: 020 7210 1197
Ffacs: 020 7210 1195

Swyddfa Caerefrog:
United House, Piccadilly
York, North Yorkshire, YO1 9PQ
Ffôn: 01904 54 5490
Ffacs: 01904 54 5492

Gwefan:
www.hmcpsi.gov.uk

ⓗ Hawlfraint y Goron 2008